
Cynllun Creu Lleoedd

# Trefynwy

Hydref 2025





monmouthshire
sir fynwy

Trawsnewid Trefi
Transforming Towns

Paratowyd y ddogfen hon ar ran:

Cyngor Tref Trefynwy/
Cyngor Sir Fynwy

Paratowyd y ddogfen hon gan:

Chris Jones Regeneration / Roberts Limbrick Architects / Owen Davies Consulting


15 Stryd Nevill
Y Fenni
Sir Fynwy
NP7 5AA

e: chris@chrisjones.studio

1 Gold Tops
Casnewydd
NP20 4PG

e: mail@robertslimbrick.com

43 A&B, Frogmore Street
Y Fenni
Sir Fynwy
NP7 5AN

e: owen@owendavies consulting.co.uk



Rhif Prosiect: 11372

Cyhoeddwyd: 17 Tachwedd 2025

Fersiwn: 2



**Hawlfraint**

Cafodd yr holl gynlluniau eu hatgynhyrchu o'r Map Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi.
Cedwir hawlfraint y Goron.

# Cynnwys


**Cyflwyniad**

Beth yw Creu Lleoedd? .... 2
Strwythur y Cynllun .... 4
Sut y cafodd y Cynllun ei Gynhyrchu .... 5

**Deall Trefynwy Heddiw**

Deall Trefynwy Heddiw .... 8
Lle mae Trefynwy .... 9
Llinell amser Trefynwy .... 10
Cyd-destun Polisi .... 16
Ffeithiau a Ffigurau Allweddol .... 19
Dadansoddiad o Ganol y Dref .... 21

**Dadansoddiad o'r Lle**

Dadansoddiad o'r Lle .... 25
Gwendidau a Chyfleoedd .... 27
Dadansoddiad SWOT .... 29
Heriau a Chyfleoedd .... 40
Yr Hyn a Ddywedodd Rhanddeiliaid .... 41

**Eich Gweledigaeth ar gyfer Dyfodol Trefynwy**

Eich Gweledigaeth ar gyfer Dyfodol Trefnwy .... 45
Eich Nodau Gweithredu .... 46
Eich Nodau Ategol .... 47

**Eich Cynllun ar gyfer Trefynwy**


Eich Cynllun ar gyfer Trefynwy .... 52
Blaenoriaethau Gofodol .... 55
Fframwaith Blaenoriaethu .... 56
Prosiectau Strategol a Galluogi .... 57
Prosiectau Gweithredol a Rhaglenni .... 59
Prosiectau Seilwaith Cyfalaf .... 60
Prosiectau a Ddatblygwyd o'r Blaen .... 63
Ailddychmygu Stryd Mynwy .... 64
Gwella Cysylltiadau i Gerddwyr .... 65
Cynllun Parth Cyhoeddus Stryd Blestium .... 66
Prosiectau Arfaethedig ar gyfer Lleoedd Penodol .... 67
Prosiectau Arfaethedig ar gyfer Lleoedd Penodol .... 68
Porth Stryd Cinderhill .... 71
Yr Orsaf Fysiau .... 75
Bwâu'r Lladd-dy .... 79
Porth Dixton Road .... 85
Prosiectau Pyrth a Mannau Cyrraedd Eraill .... 89
Prosiectau Rheoli Lleoedd a Thematig Arfaethedig .... 91
Gweithgareddau Rheoli Lleoedd .... 92

**Rhagweld Llwyddiant i Ganol ein Tref** 98

Diffinio Llwyddiant .... 99

**Dull Cyflawni** 103

Ffyrdd o Weithio .... 104



# Cyflwyniad

# Beth yw Creu Lleoedd

## Beth yw creu lleoedd

Mae creu lleoedd yn ymwneud â chreu lleoedd y mae pobl eisiau byw, gweithio, ymweld â nhw a threulio amser ynddynt. Mae'n ffordd o feddwl sy'n rhoi pobl wrth wraidd penderfyniadau cynllunio, gan sicrhau bod datblygiadau a gwelliannau newydd i ardaloedd presennol yn helpu cymunedau i ffynnu.

Yn hytrach nag edrych ar adeiladau neu strydoedd unigol fel elfennau ar wahân, mae creu lleoedd yn cymryd golwg ehangach. Mae'n ystyried sut mae gwahanol rannau o le penodol yn gweithio gyda'i gilydd - y siopau, cartrefi, parciau, cysylltiadau trafnidiaeth a chyfleusterau cymunedol - a sut y gallant wasanaethu'r bobl sy'n eu defnyddio bob dydd yn well.

Mae creu lleoedd da yn creu ardaloedd gyda'u cymeriad a'u hunaniaeth unigryw eu hunain, y mae pobl yn falch ohonynt a lle maen nhw'n teimlo ymdeimlad o berthyn a balchder. Mae'n canolbwyntio ar greu lleoedd sy'n ddeniadol, hygyrch, diogel a bywiog - ac sy'n cefnogi iechyd, hapusrwydd a llesiant pobl.

## Pam fod angen Cynllun Creu Lleoedd ar Drefynwy

Dros y blynyddoedd, mae llawer o leoedd wedi colli eu cymeriad unigryw gan fod datblygiad wedi digwydd yn dameidiog fesul tipyn, heb ystyried y darlun ehangach. Mae hyn wedi arwain at deimlad o 'nunlle' - ardaloedd a allai fod yn unrhyw le, ac nad oes ganddynt y rhinweddau arbennig sy'n gwneud i bobl ofalu amdanynt.

Mae Trefynwy yn ffodus o gael cymeriad hanesyddol cryf a lleoliad hardd rhwng dwy afon. Fodd bynnag, fel llawer o drefi marchnad, mae'n wynebu heriau: siopau gwag, tagfeydd traffig, a'r angen i ddenu a chadw pobl ifanc wrth wasanaethu ei phoblogaeth sy'n heneiddio.

Mae cynllun creu lleoedd yn helpu i gydlynu ymdrechion gwahanol sefydliadau a ffrydiau ariannu. Yn hytrach na mynd i'r afael â phroblemau un ar y tro, mae'n paratoi gweledigaeth ar y cyd y gall pawb weithio tuag ati. Mae hyn yn ei gwneud hi'n fwy tebygol y bydd gwelliannau yn ategu ei gilydd ac yn creu newid cadarnhaol parhaol.

## Diben a Chwmpas y Cynllun hwn

Mae'r cynllun creu lleoedd hwn yn nodi gweledigaeth a fframwaith ar gyfer gwella canol tref Trefynwy dros y blynyddoedd nesaf. Er ei fod yn canolbwyntio ar ganol y dref - yn fras yr ardal o Bont Mynwy yn y de i Eglwys Priordy y Santes Fair yn y gogledd - mae'r cynllun hefyd yn ystyried sut mae'r ardal hon yn cysylltu â'r dref ehangach a chefn gwlad o'i amgylch.

Nod y cynllun yw:

- Creu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer dyfodol Trefynwy sy'n adlewyrchu'r hyn y mae pobl leol ac mae busnesau eisiau ei weld
- Canfod y cyfleoedd a'r heriau allweddol sy'n wynebu canol y dref
- Nodi prosiectau ymarferol a gwelliannau y gellir eu cyflawni dros amser
- Rhoi tystiolaeth i helpu i sicrhau cyllid o wahanol ffynonellau
- Arwain y broses o wneud penderfyniadau gan gynghorau, busnesau a grwpiau cymunedol.

Bydd y cynllun yn helpu i ddangos blaenoriaethau lleol i sefydliadau rhanbarthol a chenedlaethol, gan ei gwneud hi'n haws cael mynediad at gyllid grant a chydgyfeirio gwahanol wasanaethau a buddsoddiadau.



# Beth yw Creu Lleoedd

## Yr hyn y gall, ac na all, y Cynllun hwn ei wneud

Trwy ymgynghori helaeth â thrigolion, busnesau a grwpiau lleol, gwyddom fod yna lawer o bethau yr hoffech chi am eu gweld yn cael eu gwella yn Nhrefynwy. Gall y cynllun hwn fynd i'r afael yn uniongyrchol â rhai o'r materion hyn, tra bod eraill yn gofyn am wahanol sefydliadau i weithredu.



**Yr hyn y bydd y cynllun hwn yn ei gyflawni:**

- Gwelliannau i strydoedd canol tref a mannau cyhoeddus
- Cymorth i ddod ag adeiladau gwag yn ôl i ddefnydd
- Gwell cysylltiadau rhwng safleoedd hanesyddol ac atyniadau
- Gwell arwyddion a gwybodaeth ledled canol y dref
- Cefnogi mwy o ddigwyddiadau a gweithgareddau i ddod â bywyd i fannau cyhoeddus
- Cefnogaeth i fusnesau ac entrepreneuriaid lleol.

Mae'r rhain yn ardaloedd lle gall y cyngor tref, y cyngor sir a phartneriaid lleol wneud cynnydd uniongyrchol.

**Yr hyn sy'n gofyn am weithredu ehangach**

Bydd angen i sefydliadau eraill arwain ar lawer o'r materion a godwyd wrth baratoi'r cynllun hwn:

**Trafnidiaeth:** Gall gweithredwyr bysiau a Llywodraeth Cymru wella gwasanaethau bysiau a chysylltiadau trafnidiaeth rhanbarthol.

**Gofal iechyd:** Gall y bwrdd iechyd lleol fynd i'r afael â'r prinder deintyddion y Gwasanaeth Iechyd a gwella mynediad at wasanaethau iechyd.

**Tai a Chyflogaeth:** Er y gallwn gefnogi busnesau canol trefi, mae angen gweithredu cenedlaethol a rhanbarthol ar faterion ehangach ynghylch tai fforddiadwy a chyfleoedd cyflogaeth sylweddol.

**Gwasanaethau i Bobl Ifanc:** Y tu hwnt i gyfleusterau canol trefi, gall ysgolion, gwasanaethau ieuenctid a darparwyr addysg bellach gydlynu i wella gwasanaethau i bobl ifanc.

**Sut mae'r cynllun hwn yn helpu gyda'r materion ehangach hyn:**

Hyd yn oed lle na allwn ddatrys problemau'n uniongyrchol, mae'r Cynllun hwn yn:

- Dangos i sefydliadau eraill yr hyn sydd bwysicaf i bobl leol
- Rhoi tystiolaeth wrth wneud cais am raglenni cyllido mwy
- Gosod sail ar gyfer partneriaethau â chyrff rhanbarthol a chenedlaethol
- Amlygu Trefynwy ar gyfer cyfleoedd buddsoddi ehangach.

Nid yw'r cynllun creu lleoedd hwn yn ateb i bob her sy'n wynebu Trefynwy, ond mae'n cynnig man cychwyn clir ar gyfer gweithredu cydgysylltiedig a all wneud gwahaniaeth gwirioneddol i ganol y dref a'r gymuned ehangach y mae'n ei gwasanaethu.

# Strwythur y Cynllun hwn

Mae gweddill y Cynllun Creu Lleoedd hwn wedi ei drefnu'n bedair prif adran:

## Adran 2 Deall Trefynwy heddiw a Dadansoddiad o'r Lle

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o'n dadansoddiad o ganol tref Trefynwy, ar sail nifer o ffynonellau gwybodaeth gan gynnwys ymgynghori â rhanddeiliaid lleol a'r gymuned ehangach. Mae'n archwilio'r hyn sy'n gwneud Trefynwy yn arbennig, yr heriau y mae'n eu hwynebu, a'r cyfleoedd sydd ar gael i adeiladu ar ei chryfderau.

## Adran 3 Ein Gweledigaeth ar gyfer Dyfodol Trefynwy

Mae'r adran hon yn nodi eich gweledigaeth a'ch amcanion ar gyfer dyfodol canol tref Trefynwy, gan gynnwys nodau cyflawni ac amcanion ategol. Datblygwyd y weledigaeth trwy ymgynghori helaeth â thrigolion, busnesau a sefydliadau lleol er mwyn sicrhau ei bod yn adlewyrchu'r hyn mae'r gymuned eisiau'i weld ar gyfer eu tref.

## Adran 4 Gwneud Iddo Ddigwydd

Mae'r adran hon yn dechrau trwy grynhoi sut ymatebodd y gymuned i'n cynigion cychwynnol trwy ymgynghori cyhoeddus cynhwysfawr, gan ddangos sut mae'r adborth hwn ddylanwadau'n uniongyrchol ar ein ffordd o weithredu. Yna mae'n nodi ein cynllun cynhwysfawr ar gyfer cyflawni'r weledigaeth, gan gynnwys Fframwaith sy'n dangos pa brosiectau sydd iddynt fwy o flaenoriaeth nag eraill.

## Adran 5 Dangos Llwyddiant ein Canol Tref

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar fesur effeithiolrwydd newid, gan nodi sut i olrhain allbynnau a chanlyniadau a'u cymharu â phob un o'r nodau cyflawni i sicrhau eu bod wedi'i gweithredu'n llwyddiannus.

# Sut y Cafodd y Cynllun ei Gynhyrchu

## Cyfraniad Rhanddeiliaid a'r Gymuned


Datblygwyd Cynllun Creu Lleoedd Trefynwy trwy gyd-drafod helaeth â rhanddeiliaid a chymunedau, gyda phob cam yn dylanwadu'n uniongyrchol ar agweddau allweddol o'r cynllun terfynol:

Rhoddodd grŵp llywio pwrpasol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Gyngor Sir Fynwy, Cyngor Tref Trefynwy a sefydliadau rhanddeiliaid lleol allweddol, arweiniad strategol drwy gydol y prosiect. Yn bwysicaf oll, cynhaliodd y grŵp llywio ymarfer blaenoriaethu gan ddefnyddio gwybodaeth a oedd yn cynnwys adborth o ymgynghoriad cyhoeddus i bennu'r prosiectau â blaenoriaeth a sicrhau y byddai adnoddau'n cael eu canolbwyntio ar fentrau a gefnogir gan y gymuned.

Roedd gweithdai rhanddeiliaid yn gonglfaen i'r dull ymgynghori, gyda phob gweithdy â diben penodol yn natblygiad y cynllun. Casglodd y gweithdy cyntaf, a gynhaliwyd ym mis Medi 2024, wybodaeth leol amhrisiadwy a ddylanwadodd yn uniongyrchol ar ddatblygiad y weledigaeth am ddyfodol Trefynwy. Nododd y cyfranogwyr yr hyn yr oeddent yn ei wirioneddol hoffi am ganol y dref dan ddychmygu ei ddyfodol trwy drafodaethau strwythuredig, gyda'u cyfraniad yn gosod sail ar gyfer  y weledigaeth derfynol uchelgeisiol. Casglodd yr ail weithdy, a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2025, adborth ar y cynigion drafft, gydag arbenigedd rhanddeiliaid yn llywio a mireinio'r prosiectau arfaethedig cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus ehangach.

Roedd teithiau cerdded rhyngweithiol o amgylch canol y dref gyda rhanddeiliaid yn rhoi dealltwriaeth ar lawr gwlad o broblemau a chyfleoedd penodol, gan ddod â'r dadansoddiad desg yn fyw. Fe wnaethant ddylanwadu'n uniongyrchol ar y prosiect trwy dynnu sylw at heriau cysylltedd, mannau a danddefnyddir ac ardaloedd sydd â photensial i wella.

Roedd cyfarfodydd wedi'u targedu gyda grwpiau penodol yn sicrhau bod safbwyntiau amrywiol yn cael eu canfod. Rhoddodd sesiynau gyda myfyrwyr o Ysgol Gyfun Trefynwy ddealltwriaeth o sut mae pobl ifanc yn profi canol y dref, gan arwain prosiectau ac iddynt y nod o annog mwy o gyd-drafod â'r grŵp oedran hwn.




Roedd yr ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Mawrth 2025 yn cynnig ffyrdd gwahanol i'r gymuned gymryd rhan. Denodd sesiynau galw heibio personol yn Neuadd y Farchnad 222 o bobl dros ddau ddiwrnod, gyda phresenoldeb brig yn ystod bore Sadwrn ac amser cinio dydd Gwener. Rhoddodd arddangosfa yn Hen Siambr y Cyngor yn Neuadd y Sir gyfleoedd ychwanegol i gael adborth. Roedd ymgynghori digidol drwy blatfform Siarad am Sir Fynwy yn ymestyn cyrhaeddiad yn sylweddol, gyda 1,240 o ymwelwyr â thudalen y prosiect a 428 o lawrlwythiadau o'r ddogfen gynigion. Rhwng pawb, cwblhaodd cyfanswm o 250 o bobl yr arolwg adborth naill ai ar-lein neu ar bapur. Defnyddiwyd yr adborth o'r ymgynghoriad cyhoeddus cynhwysfawr hwn i fireinio syniadau a sicrhau eu bod yn mynd i'r afael â blaenoriaethau a phryderon cymunedol. Roedd hefyd yn helpu i arwain y weledigaeth, gan gadarnhau cefnogaeth y gymuned i'w chyfeiriad ac yn hollbwysig, dangosodd y ffordd ar gyfer blaenoriaethu prosiectau ochr yn ochr â thrafodaethau'r grŵp llywio.

Mae canfyddiadau llawn y cam ymgynghori cyhoeddus yn cael eu dadansoddi mewn dogfen ar wahân, **Adroddiad Ymgynghori Trefynwy**, y gallwch ei gael drwy e-bostio **mccregeneration@monmouthshire.gov.uk.**



# Deall Trefynwy Heddiw

# Deall Trefynwy Heddiw

**Cyfraniad Rhanddeiliaid a'r Gymuned**

Er mwyn creu cynllun llwyddiannus ar gyfer dyfodol Trefynwy, mae angen i ni ddeall y dref fel y mae heddiw. Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o'n dadansoddiad manwl o ganol tref Trefynwy, sy'n seiliedig ar ymchwil helaeth, dadansoddi data, ac - yn bwysicaf oll - sgyrsiau gyda'r bobl sy'n adnabod y dref orau: ei thrigolion, perchnogion busnes, ymwelwyr, a grwpiau cymunedol.

Rydym yn archwilio'r hyn sy'n gwneud Trefynwy yn unigryw ac yn arbennig, o'i phensaernïaeth hanesyddol syfrdanol a'i lleoliad glan yr afon i'w rôl fel tref farchnad sy'n gwasanaethu ardal wledig eang. Rydym hefyd yn edrych yn onest ar yr heriau sy'n wynebu canol y dref, gan gynnwys rhai adeiladau gwag amlwg. Rydym yn edrych ar sut i wneud i ganol y dref weithio i bobl o bob oed, sut i helpu pobl i grwydro o gwmpas i ddarganfod ei asedau treftadaeth gwych a'i fusnesau annibynnol, a'r angen i fynd i'r pethau sylfaenol yn iawn fel twtio mannau cyhoeddus a'u gwneud mor lân a thaclus â phosibl.

Trwy ddeall cryfderau Trefynwy a'r heriau y mae'n eu hwynebu, gallwn ganfod y cyfleoedd gwirioneddol sydd ar gael i adeiladu dyfodol gwell i ganol y dref a'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu.

Mae manylion llawn ein dadansoddiad wedi'u nodi yn **Adroddiad Llinell Sylfaen Trefynwy** ar wahân, y gallwch ei gael drwy e-bostio: **mccregeneration@monmouthshire.gov.uk.**



# Lle mae Trefynwy

Tref farchnad a chymuned yn Sir Fynwy yw Trefynwy, lle mae Afon Mynwy yn ymuno ag Afon Gwy, tua dwy filltir o’r ffin â Lloegr.

Mae’r dref mewn safle strategol rhwng y canolfannau mawr yn ne Cymru a de-orllewin a chanolbarth Lloegr.

Mae Trefynwy yn gweithredu fel y brif ganolfan fanwerthu, addysgol a diwylliannol ar gyfer ardal wledig helaeth, gan gynnwys llawer o ogledd-ddwyrain a chanol Sir Fynwy, ac yn ymestyn i Fforest y Ddena a Swydd Henffordd.


Mae hefyd yn cynnwys nifer o ganolfannau cymdogaeth llai.

Mae gan ganol y dref nifer cymharol fawr ac amrywiaeth dda o siopau a bwytai, theatr, sinema ac amgueddfa. Mae yna hefyd ganolfan hamdden sy’n cynnig amrywiaeth o gyfleusterau gan gynnwys pwll nofio, ystafelloedd ffitrwydd, neuaddau chwaraeon dan do a chaeau awyr agored, yn ogystal â nifer o barciau a mannau agored sy’n cael eu rhedeg gan y cyngor sir.

Mae gan Drefynwy wasanaethau bws i drefi a dinasoedd de Cymru ac i Swydd Gaerloyw a Swydd Henffordd. Yr orsaf drenau agosaf yw’r Fenni, 25 munud mewn car i ffwrdd, ac mae’r orsaf hon yn cynnig gwasanaethau rheolaidd i Henffordd, Casnewydd (gyda chysylltiadau â Bryste), Caerdydd ac ymhellach.


Mae Trefynwy wedi’i lleoli ar gyrion Ardal Tirwedd Genedlaethol Dyffryn Gwy, sy’n ffinio’n uniongyrchol â’r dref ac mae’n ganolfan bwysig ar gyfer twristiaeth. Mae canol y dref hefyd yn Ardal Gadwraeth ddynodedig.



## Llinell Amser Trefynwy

Mae'r llinell amser hon yn amlinellu'r cerrig milltir hanesyddol allweddol yn natblygiad Trefynwy, o'i dechreuadau Rhufeinig cynnar at welliannau modern mewn seilwaith.



**1067**

Adeiladu **CASTELLTREFYNWY** ganWilliam FitzOsbern



**1101**

Sefydlu **PRIORDY TREFYNWY**

**13eg Ganrif**

Diddymu **PRIORDY TREFYNWY** adeg diddymu'r Mynachlogydd

**1536**




**TREFYNWY** yn dod yn DREF FARCHNAD

**17eg Ganrif**

**1645**

Pont Tibb ar o
Mynwy 1799



**1724**

Adeiladu **NEUADD Y SIR**



## Monmouth Timeline



afon

**18fed Ganrif**

Twf ym mhwysigrwydd Trefynwy fel tref farchnad a chanolfan weinyddol



**1857**

Gorsaf reilffordd Monmouth Troy yn agor (caeodd yn 1964)



**1902**

Sefydlu **YSGOL MERCHED TREFYNWY**



**1960au**

**SEILWAITH MODERN** a datblygu tai newydd

**2004**

Agor **PONT NEWYDD MYNWY** ar 15 Mawrth






**2018**

Agoriad mawreddog **YSGOL GYFUN** newydd



# Gweithgareddau, Cynlluniau a Phrosiectau cyfredol

Nid yw Trefynwy yn dechrau o dudalen wag. Mae'r dref wedi elwa o fuddsoddiad sylweddol yn ddiweddar ac mae ganddi gyfres nodedig o brosiectau ar y gweill sydd eisoes yn trawsnewid ardaloedd allweddol canol y dref. Mae'r mentrau hyn, a gyflwynir drwy bartneriaethau rhwng Cyngor Tref Trefynwy, Cyngor Sir Fynwy, a chyrff cyllido amrywiol gan gynnwys Llywodraeth Cymru a Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, yn dangos y sylfaen gref y mae'r cynllun creu lleoedd hwn yn adeiladu arni.

Mae Trefynwy wedi datblygu momentwm sy'n cynnwys y trawsnewidiad mawr o Neuadd y Sir hanesyddol yn amgueddfa a chanolfan ddiwylliannol fywiog, y gwelliannau sydd wedi'u cwblhau ar hyd glan yr afon ger Pont Mynwy, a'r cynlluniau a gymeradwywyd ar gyfer Stryd Mynwy a Stryd yr Eglwys. Mae'r dref hefyd wedi cofleidio arloesedd trwy dechnoleg 'trefi SMART', gan gyflwyno biniau ailgylchu deallus a seilwaith LoRaWAN (rhwydwaith diwifr pellter hir), tra'n parhau â'i harweinyddiad amgylcheddol fel Tref Wenyn gyntaf y Deyrnas Unedig.

Mae'r cynllun creu lleoedd hwn yn cydnabod ac yn adeiladu ar y llwyddiannau hyn, gan sicrhau bod cynigion yn y dyfodol yn ategu ac yn gwella'r gwaith rhagorol sydd eisoes ar y gweill. Mae'r adran ganlynol yn amlinellu'r prosiectau allweddol sy'n ffurfio'r sylfaen ar gyfer parhau i adfywio Trefynwy, gan roi cyd-destun ar gyfer sut y bydd argymhellion y cynllun yn integreiddio ac yn ymhelaethu'r ymdrechion hyn.



# Gweithgareddau, Cynlluniau a Phrosiectau cyfredol

## Neuadd y Sir

Dyfarnwyd £1.5 miliwn o gyllid gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol i Brosiect Treftadaeth Neuadd y Sir Cyngor Sir Fynwy i greu amgueddfa fywiog yn Neuadd y Sir, gan integreiddio dau safle presennol MonLife mewn un lle cynaliadwy. Bydd y prosiect hwn yn gwella profiad ymwelwyr gydag orielau a lleoedd cymunedol newydd wrth gadw casgliadau sylweddol sy'n gysylltiedig â hanes lleol a ffigurau nodedig. Bydd y prosiect yn ymwneud â chynulleidfaoedd amrywiol trwy ymgynghoriadau cynhwysol, arddangosfeydd a gweithdai, gan ymgorffori'r arferion gorau mewn cyd-gynhyrchu. Mae'n bwriadu cynyddu capasiti sefydliadol gyda rolau newydd a chyfleoedd gwirfoddoli a chydweithio â sefydliadau addysgol ar gyfer datblygu sgiliau a chadwraeth treftadaeth.






## Teithio Llesol

Mae Cyngor Sir Fynwy wedi cwblhau Llwybr Teithio Llesol Williams Field Lane i Bont Trefynwy, a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r llwybr newydd hwn yn cysylltu ardaloedd preswyl â chanol y dref trwy Wonastow Road a Drybridge Street, gyda chysylltiadau o barc sglefrio Rockfield Road. Mae'r gwelliannau allweddol yn cynnwys lledu troedffyrdd ar y cyd ar gyfer beicio a cherdded, cyffordd flaenoriaeth newydd yn lle cylchfan fach Wonastow Road a gwell croesfannau i gerddwyr.

Mae cynlluniau yn y dyfodol yn cynnwys pont droed arfaethedig i gerddwyr dros Afon Gwy i wella cysylltiadau â Wyesham a Llwybr Clawdd Offa.

## Atgyweiriadau Pont Inglis

Mae Pont Inglis, sy'n croesi Afon Mynwy ac yn cysylltu Caeau Vauxhall a maestref Osbaston, wedi bod ar gau ers 2024 am resymau diogelwch. Yng ngwanwyn 2025, cyhoeddwyd bod perchnogion y bont, y Weinyddiaeth Amddiffyn, wedi sicrhau cyllid ar gyfer y gwaith hanfodol sydd ei angen i ailagor y bont ac, yn amodol ar benodi contractwr a sicrhau caniatâd amgylcheddol, dylai'r gwaith fod wedi'i gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn.



# Gweithgareddau, Cynlluniau a Phrosiectau cyfredol

## Glan yr Afon a Phont Mynwy

Mae gwelliannau i lan yr afon ger Pont hanesyddol Mynwy a seilwaith sylfaenol yn Nhrefynwy wedi'u cwblhau yn ddiweddar. Mae'r prosiect yn bartneriaeth rhwng Cyngor Sir Fynwy a Chyngor Tref Trefynwy ac fe'i ariennir gan gynllun Y Pethau Pwysig Llywodraeth Cymru. Mae'r cynllun yn cefnogi gwelliannau ar raddfa fach i seilwaith, gyda'r nod o wneud trefi'n fwy atyniadol i ymwelwyr.

Mae'r prosiect yn cynnwys plannu coed a blodau gwyllt, gosod meinciau picnic newydd fel y gall pobl fwynhau'r lle hyfryd ar lan yr afon gyda'i olygfa o'r bont eiconig, arwyddion a cherflun i greu gwahaniad mwy gweledol rhwng y llecyn gwyrdd a'r maes parcio. Yn ogystal â'r gwelliannau i'r man agored, mae biniau sbwriel "smart" newydd wedi'u gosod ar Stryd Mynwy ac mewn lleoliadau allweddol eraill.

Elfen bwysig o'r prosiect yw cyflwyno biniau sbwriel ailgylchu 'smart' ledled canol y dref i gasglu caniau, poteli plastig a chwpanau papur i'w hailgylchu. Yn ogystal â'r biniau ailgylch sbwriel stryd, cyflwynwyd pum canolbwynt ailgylchu mwy lle gellir ailgylchu poteli gwydr, caniau, poteli plastig a chwpanau papur. Mae'r biniau wedi'u gosod gyda synwyryddion llenwi biniau electronig fel rhan o dreial i brofi sut y gall technoleg helpu i leihau amlder biniau sbwriel sy'n gorlifo. Mae'r prosiect yn rhan o'r Cynllun Gweithredu Afonydd a Môr, sy'n codi ymwybyddiaeth o'r effaith y gall sbwriel ei chael ar ein hafonydd a'n moroedd.

## Blwch Ffôn Sgwâr Agincourt

Mae'r cyngor tref wedi comisiynu artist i gael syniadau ar gyfer dyluniad y blwch ffôn. Y syniad yw gosod 'Hafan Llonyddwch,' a fyddai'n cynnwys sedd gyfforddus ac yn caniatáu i'r defnyddiwr ddewis cerddoriaeth dawel i wrando arni.

## Tanffordd a Thanlwybr Wyesham

Mae gwirfoddolwyr wedi cynnal diwrnod paratoi paentio fel rhan o gynllunio'r murlun newydd.

## Camerâu teledu cylch cyfyng ychwanegol

Bydd y cyngor sir, gyda chefnogaeth y cyngor tref, yn gosod dau gamera teledu cylch cyfyng newydd yng nghanol y dref, un y tu allan i WH Smith ac un y tu allan i'r Green Dragon.

## Trefi Smart

Mae'r cyngor tref yn archwilio sut y gellir defnyddio technoleg trefi SMART fel rhan o'r cynllun creu lleoedd, gan gynnwys faint o synwyryddion all gefnogi prosiectau newydd. Maen nhw'n bwriadu cynnal 'Sioe Deithiol Trefi Smart' ar gyfer Trefynwy.



Llecyn newydd ar gyfer picnic ar lan yr afon



Blwch ffôn yn Sgwâr Agincourt

# Gweithgareddau, Cynlluniau a Phrosiectau cyfredol

## Eiddo Gwag a Gwelliannau Eiddo

Mae Grant Gwella Eiddo Canol Tref Sir Fynwy yn darparu cymorth ariannol ar gyfer gwelliannau i eiddo mewn ardal ddynodedig yng nghanol tref Trefynwy. Nod y cynllun yw cyflawni dull gwell ac integredig o adfywio ffisegol ac mae'n cael ei ariannu drwy Grant Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Fynwy.





## Ardal Stryd yr Eglwys

Mae'r cyngor tref wedi sicrhau £75,000 o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU i adfywio Stryd yr Eglwys a White Swan Court i gynnwys arwyddion gwell, bwâu, ymgyrchoedd hysbysebu, finylau siopau, goleuadau gwell a dodrefn stryd ychwanegol.

Erbyn mis Awst 2025, roedd y prosiect wedi'i gwblhau'n sylweddol. Mae'r allbynnau allweddol yn cynnwys canopi goleuadau newydd, paneli gwybodaeth a delweddau newydd yn White Swan Court, llyfryn gweithgareddau i'r teulu, a gwefan bwrpasol. Pan ysgrifennir hyn, mae arwyddion croeso ar gyfer y fynedfa wrthi'n cael eu cynhyrchu.

Mae'r cynllun hwn yn gwella hunaniaeth Ardal Stryd yr Eglwys a phrofiad ymwelwyr ohoni wrth gefnogi'r busnesau annibynnol sy'n ei gwneud yn gyrchfan unigryw.



# Cyd-destun Polisi

Mae cyd-destun polisi Trefynwy yn rhoi cyfeiriad a chysondeb strategol hanfodol ar gyfer y cynllun creu lleoedd hwn, gan sefydlu'r fframwaith y mae'n rhaid i fentrau adfywio lleol weithredu ynddo ac yn dangos cyfleoedd allweddol ar gyfer datblygu. .

### Fframwaith Polisi Cenedlaethol

Ar lefel genedlaethol, **Cymru'r Dyfodol – Cynllun Cenedlaethol 2040** sy'n gosod y fframwaith datblygu cyffredinol, er nad yw Trefynwy wedi'i dynodi fel Ardal Twf Cenedlaethol. Fodd bynnag, mae polisïau'r cynllun cenedlaethol ar gefnogi cymunedau ac economïau gwledig, adfywio trefol o dan arweiniad y sector cyhoeddus, a darparu tai fforddiadwy yn cynnig cyfleoedd sylweddol i fynd i'r afael â heriau lleol allweddol.

Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** yn sefydlu saith nod llesiant ac yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ddangos ystyriaeth o 'bum ffordd o weithio': cyfranogi, cydweithio, integreiddio, atal, a meddwl hirdymor. Mae'r Ddeddf yn sail i'r dull datblygu cynaliadwy sy'n rhaid seilio pob penderfyniad gwneud lleoedd arno.

Mae **Polisi Cynllunio Cymru (2024)** yn rhoi creu lleoedd wrth wraidd y system gynllunio, gan ei gwneud yn ofynnol bod pob penderfyniad datblygu yn cyfrannu tuag at greu lleoedd cynaliadwy sy'n ddeniadol, cymdeithasol, hygyrch, egnïol, diogel, croesawgar, iach a chyfeillgar. Mae'r polisi yn diffinio creu lleoedd fel dull cyfannol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau cadarnhaol sy'n hyrwyddo ffyniant, iechyd, hapusrwydd a lles pobl.

Mae polisi trafnidiaeth yn cael ei arwain gan Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a **Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013**, sy'n blaenoriaethu cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus drwy'r hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i Drefynwy o ystyried ei dibyniaeth uchel mewn ceir a chysylltiadau cyfyngedig ar drafnidiaeth gyhoeddus.

### Polisi Canol Trefi Llywodraeth Cymru

Mae'r **Rhaglen Trawsnewid Trefi** a'r dyraniad buddsoddi cysylltiedig o £100m yn rhoi cyfleoedd am gyllid uniongyrchol ar gyfer adfywio Trefynwy. Mae'r egwyddorion allweddol yn cynnwys y polisi 'Canol Trefi yn Gyntaf', sy'n hyrwyddo datblygiad preswyl yng nghanol trefi, a gweithredu ar y cyd ar draws sectorau.

Mae **canllawiau Comisiwn Dylunio Cymru** yn pwysleisio y dylai cynlluniau creu lleoedd gael eu harwain yn lleol, ymgynghori â rhanddeiliaid amrywiol, ac ystyried pob cyfle ariannu y tu hwnt i fuddsoddiad gan y sector cyhoeddus yn unig. Dylai cynlluniau gyd-fynd â chanlyniadau ehangach gan gynnwys iechyd a llesiant, datgarboneiddio, a lleihau anghydraddoldeb.



# Cyd-destun Polisi

### Cyd-destun Rhanbarthol a Lleol

Ar y lefel ranbarthol, mae **Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd** yn cynnig cyfleoedd cydweithredol am ddatblygu economaidd, tra bod **Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol Cyngor Sir Fynwy** yn blaenoriaethu cyfiawnder cymdeithasol, creu menter a swyddi, gwasanaethau hygyrch yn lleol, a thai o safon.

Nod y **Cynllun Datblygu Lleol** newydd sy'n dod i rym (2018-2033) yw cyflawni nod craidd y cyngor i ddod yn sir ddi-garbon. Mae ei amcanion allweddol yn cynnwys denu pobl ifanc er mwyn ailgydbwyso demograffeg, mynd i'r afael ag anghydraddoldeb tai, ac ymateb i argyfyngau hinsawdd a natur trwy ddatblygu cynaliadwy.


Mae **Adroddiad Blynyddol Cyngor Tref Trefynwy 2023** yn dangos ymrwymiad lleol cryf i fentrau amgylcheddol (gan gynnwys statws Tref Wenyn), gwelliannau teithio llesol, cefnogaeth gymunedol, a diogelu treftadaeth ddiwylliannol, i osod sylfaen gadarn ar gyfer cyflawni'r cynllun creu lleoedd hwn ar y cyd.

Mae'r fframwaith polisi aml-haenog hwn yn creu cyfleoedd a gofynion ar gyfer adfywio Trefynwy, ac mae'n pwysleisio'r canolbwyntio ar ddatblygu cynaliadwy, ymgynghori â'r gymuned, a chyflawni ar y cyd ar draws pob lefel o lywodraeth a sefydliadau rhanddeiliaid.

### Fframwaith Cynaliadwydd a Newid yn yr Hinsawdd

Mae newid yn yr hinsawdd yn un o'r heriau sy'n diffinio'n hoes, ac mae'n rhaid i ymateb Trefynwy adlewyrchu gofynion polisi cenedlaethol a chyfleoedd lleol. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Polisi Cynllunio Cymru, datganiad Cyngor Sir Fynwy o argyfwng hinsawdd yn 2019, ac Adroddiad Blynyddol Cyngor Tref Trefynwy 2023 i gyd yn sefydlu disgwyliadau clir y dylai penderfyniadau cynllunio a creu lleoedd gyfrannu at ddatgarboneiddio a gwydnwch yn erbyn newid hinsawdd.

Mae'r cynllun creu lleoedd hwn yn integreiddio ystyriaethau hinsawdd trwy gydol ei gynigion yn hytrach na thrin cynaliadwyedd fel mater ar wahân. Mae'r holl brosiectau yn y cynllun wedi'u cynllunio i gefnogi trawsnewidiad Trefynwy i dyfodol digarbon wrth addasu i'r effeithiau y mae newid yn yr hinsawdd eisoes yn eu cael.






# Cyd-destun Polisi

### Cyfleoedd Hinsawdd Trefynwy

Mae lleoliad unigryw'r dref yn cynnig cyfleoedd penodol am ddatblygiadau cadarnhaol o safbwynt yr hinsawdd. Mae Afonydd Gwy a Mynwy yn cynnig systemau draenio naturiol y gellir eu gwella drwy Gynlluniau Draenio Trefol Cynaliadwy (SUDS), tra bod maint cryno canol y dref yn cefnogi teithio llesol a llai o ddibyniaeth ar geir. Mae rôl sefydledig Trefynwy fel tref farchnad yn creu cyfleoedd i gefnogi rhwydweithiau bwyd lleol a lleihau allyriadau trafnidiaeth, tra bod y cefn gwlad o chwmpas yn cynnig potensial ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy a dal a storio carbon.



### Ymgorffori Mesurau Cynaliadwyedd

Yn hytrach na rhestru mesurau cynaliadwyedd cyffredinol, mae'r cynllun hwn yn sicrhau bod ystyriaethau hinsawdd yn cael eu gwau ym mhob thema prosiect. Mae gwelliannau Stryd Mynwy yn ymgorffori gerddi glaw helaeth a SUDS i reoli mwy o law tra'n darparu manteision bioamrywiaeth. Mae gwelliannau i'r parth cyhoeddus yn blaenoriaethu plannu coed a seilwaith gwyrdd a fydd yn helpu tymheredd trefol cymedrol wrth wella ansawdd aer. Mae prosiectau trafnidiaeth yn canolbwyntio ar seilwaith teithio llesol a gwefru cerbydau trydan er mwyn lleihau allyriadau o ddibyniaeth bresennol y dref ar geir.

Bydd yr holl welliannau adeiladu a hyrwyddir drwy'r cynllun hwn yn cefnogi gwell effeithlonrwydd ynni ac, lle bo hynny'n briodol, cynhyrchu ynni adnewyddadwy. Mae pwyslais y cynllun ar ddod ag adeiladau gwag yn ôl i ddefnydd cynhyrchiol yn cynrychioli dull sylfaenol o weithredu cadarnhaol at yr hinsawdd: ailddefnyddio strwythurau presennol yn hytrach na gofyn am adeiladu newydd tra'n dileu'r allyriadau sy'n gysylltiedig ag adeiladau diffaith.

Mae'r dull integredig hwn yn sicrhau bod adfywio Trefynwy yn cyfrannu'n gadarnhaol at wydnwch lleol a nodau hinsawdd cenedlaethol, gan greu tref sy'n economaidd fywiog ac yn amgylcheddol gynaliadwy.

# Ffeithiau a Ffigurau Allweddol

## Poblogaeth

Mae gan Fynwy boblogaeth o 10,300 o drigolion ar 4,700 o aelwydydd. Mae'r dref yn dangos patrwm demograffig amlwg gyda chyfrannau uwch o drigolion 10-14 a 55-74 oed o'i gymharu â chyfartaledd Cymru, ond cyfrannau sylweddol llai rhwng 20 a 44 oed. Mae hyn yn adlewyrchu tuedd mewn pobl ifanc sy'n gadael am addysg neu gyfleoedd gwaith ac yn dychwelyd yn eu 40au, gan greu proffil poblogaeth yn heneiddio – sy'n nodweddiadol o lawer o drefi marchnad.


## Cyflogaeth

Mae'r proffil galwedigaethol yn dangos bod 14.4% o'r boblogaeth waith mewn rolau rheoli a phroffesiynol, sy'n uwch na'r cyfartaledd. Mae galwedigaethau elfennol yn cyfrif am 11.1% (ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru), tra bod swyddi gwerthu a gwasanaethau cwsmeriaid yng nghanol trefi yn cynrychioli 7.8%, ychydig yn is na chyfartaledd Cymru. Mae hyn yn awgrymu strwythur cyflogaeth pegynnol gyda rolau sgiliau uchel a sgiliau is.

## Gweithgarwch Economaidd

Mae lefelau gweithgarwch economaidd yn adlewyrchu cyfartaledd Cymru, gydag ychydig dros hanner y trigolion mewn cyflogaeth. Fodd bynnag, mae'r dref yn dangos gwydnwch economaidd gyda diweithdra yn 2.4% (is na chyfartaledd Cymru o 3.1%). Mae patrwm unigryw yn dod i'r amlwg lle'r oedd 74% o breswylwyr di-waith heb weithio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (naw pwynt canran yn uwch na chyfartaledd Cymru), ond dim ond 15.7% nad oedd erioed wedi gweithio (saith pwynt canran is). Mae hyn yn awgrymu cymuned drosiannol lle mae preswylwyr yn symud i mewn ac allan o gyflogaeth yn hytrach na wynebu allgáu hirdymor, sy'n debygol o adlewyrchu'r proffil oedran, patrymau ymddeol, a dewisiadau ffordd o fyw sy'n nodweddiadol o drefi marchnad.

| Lefel Gweithgarwch Economaidd | Trefynwy | Cyfartaledd Cymru |
|---|---|---|
| Economaidd Weithgar: Mewn Cyflogaeth | 52.4% | 53.5% |
| Economaidd Weithgar: Di-waith | 2.4% | 3.1% |
| Economaidd Anweithgar | 45.2% | 43.5% |
| Di-waith (wedi gweithio yn y flwyddyn ddiwethaf) | 10.1% | 11.5% |
| Di-waith (heb weithio yn y flwyddyn ddiwethaf) | 74.3% | 65.4% |
| Di-waith (erioed wedi gweithio) | 15.7% | 23.1% |



# Ffeithiau a Ffigurau Allweddol

## Cymwysterau / Sgiliau

Mae trigolion Trefynwy â chymwysterau da, gyda 38.9% yn meddu ar gymwysterau Lefel 4 ac uwch (7.4% yn uwch na chyfartaledd Cymru). Dim ond 16% sydd heb ddim cymwysterau, sydd 3.9% yn is na chyfartaledd Cymru. Mae'r lefel sgiliau uchel hon yn adlewyrchu apêl y dref at deuluoedd proffesiynol a'i agosrwydd at sefydliadau addysgol da.

## Perchnogaeth Cerbydau

Mae perchnogaeth cerbydau yn uchel, gyda 43.8% o aelwydydd yn berchen ar un cerbyd (uwch na chyfartaledd Cymru o 41.7%) a 29.7% yn berchen ar ddau gerbyd neu fwy. Mae hyn yn adlewyrchu lleoliad gwledig Trefynwy a'r angen am drafnidiaeth breifat oherwydd trafnidiaeth gyhoeddus gyfyngedig, yn enwedig absenoldeb gorsaf reilffordd.

## Teithio i'r Gwaith

Mae Trefynwy yn dangos patrymau cymudo nodedig gyda 12.3% yn teithio dros 30km i'r gwaith (dwbl cyfartaledd Cymru, sef 5.9%), tra bod 30.1% yn teithio llai na 10km. Yn nodedig, mae 26.9% yn gweithio gartref a 13.6% yn cerdded i'r gwaith (bron i ddwbl cyfartaledd Cymru), sy'n dangos parodrwydd i gymudo a chyfleoedd cyflogaeth lleol iawn.

## Troseddu

Mae Trefynwy ymhlith y 10 tref fach fwyaf diogel yng Ngwent. Y prif gategorïau troseddau yn y 12 mis o fis Hydref 2022 oedd troseddau treisgar, ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddau trefn gyhoeddus, a dwyn o siopau, gyda lefelau digwyddiadau cymharol isel. Cyrhaeddodd troseddau cyffredinol uchafbwynt yng ngwanwyn 2023, gyda throseddau treisgar yn cyrraedd uchafbwynt ym mis Mehefin, ymddygiad gwrthgymdeithasol ym mis Mawrth-Ebrill, a dwyn o siopau ym mis Chwefror.

## Tai

Mae'r farchnad dai wedi'i polareiddio, gyda 41.8% yn berchen ar gartrefi yn llwyr (uwch na chyfartaledd Cymru) a phrisiau tai yn amrywio'n sylweddol ar draws wardiau. Mae pedair ward ymhlith y drutaf yn y sir a dwy ymhlith y lleiaf costus, yn enwedig Overmonnow. Mae stoc dai wedi'i gogwyddo tuag at lety 1 ystafell wely (10.9%) ac eiddo 4+ ystafell wely (28.8%), gyda llai o gartrefi 3 ystafell wely na chyfartaledd Cymru.



**26.9%** Gweithio o Gartref | **0.3%** Cymryd Trên i'r Gwaith | **52.9%** Gweithio i'r Gwaith | **1.7%** Beicio i'r Gwaith | **13.6%** Cerdded i'r Gwaith



**41.8%**
**Perchen llwyr ar eu Cartrefi**

# Dadansoddiad o Ganol y Dref

### Dalgylch Gwledig

Mae Trefynwy yn gwasanaethu dalgylch gwledig sylweddol, sy'n ymestyn o Raglan i Coleford, gyda thua 26,000 o drigolion rhwng 11,000 o aelwydydd. Mae gan yr ardal incwm cymedrig aelwydydd o £42,072, ychydig yn is na chyfartaledd y sir ond yn uwch na chyfartaledd Cymru. Fodd bynnag, mae bron i chwarter yr aelwydydd yn disgyn islaw 60% o incwm canolrifol y DU, sy'n dangos rhai heriau economaidd yn y dalgylch.

### Cymysgedd ac Amrywiaeth Busnesau

Mae gan ganol y dref gynnig amrywiol o ran manwerthu a gwasanaethau, gyda gwasanaethau trin gwallt a harddwch yn arwain (24 uned), ac yna caffis a bwytai (16 uned), a manwerthwyr ffasiwn (14 uned). Mae'r duedd hirdymor yn dangos gostyngiad mewn siopau nad ydynt yn fwyd a thwf mewn dibenion gwasanaethau a hamdden (bwyd a diod a gwasanaethau eraill). Yn 2024, roedd dibenion hamdden yn cynrychioli 18% o unedau a feddiannwyd. Mae'r dref yn cynnal cyfran ychydig yn uwch o gadwyni lluosog (36%) o'i gymharu â siopau annibynnol (64%) na'r cyfartaledd yng Nghymru, gydag angorau allweddol yn cynnwys Waitrose, M&S Food, a brandiau cenedlaethol wedi'u crynhoi ar hyd Stryd Mynwy.

### Heriau Eiddo Gwag

Mae cyfraddau eiddo gwag wedi amrywio'n sylweddol dros ddau ddegawd, gan gyrraedd uchafbwynt o 18.6% yn 2023 cyn gwella i 10% yn 2024. Mae clystyrau nodedig o eiddo gwag o amgylch Sgwâr Agincourt, Stryd yr Eglwys, a White Swan Court, gydag adeiladau gwag amlwg gan gynnwys hen siop Peacocks a ddifrodwyd gan dân a sawl hen adeilad banc. Mae'r swyddi gwag hyn yn cyfrannu at leihau bywiogrwydd mewn rhannau allweddol o'r dref ac yn tynnu sylw at yr angen am ymdrechion adfywio penodol.







# Dadansoddiad o Ganol y Dref

### Deinameg y Farchnad Eiddo

Er gwaethaf heriau eiddo gwag, mae canol tref Trefynwy wedi dangos rhenti sefydlog ac wedi perfformio'n well na threfi maint tebyg yn y rhanbarth. Mae galw mawr am Stryd Mynwy yn parhau, gyda galw cryf am eiddo tua 100 metr sgwâr. Mae unedau llai, parod i'w meddiannu yn denu busnesau bach a busnesau newydd, tra bod safleoedd mwy, yn enwedig hen fanciau, yn wynebu heriau sylweddol ac angen buddsoddiad sylweddol cyn y gellir eu hail-osod. Ar hyn o bryd nid oes galw cyson am ofod swyddfeydd yng nghanol y dref.

### Niferoedd Ymwelwyr a Phatrymau Siopa


Mae llif cerddwyr yn dangos bod y gweithgarwch uchaf rhwng 11am a 2pm, gyda Chanolfan Oldway, Stryd yr Eglwys, Waitrose, a Stryd y Priordy y lleoedd prysuraf. Datgelodd arolwg aelwydydd 2022 fod 55% o drigolion yn siopa'n wythnosol, gyda Waitrose y gyrchfan fwyaf poblogaidd (16%) ar gyfer prif siopa bwyd. Fodd bynnag, mae siopa sylweddol am nwyddau heblaw bwyd yn digwydd y tu allan i'r sir, gyda thrigolion yn teithio i Henffordd a Bryste, sy'n her a chyfle i ganol y dref.

Mae manylion llawn ein dadansoddiad wedi'u nodi mewn dogfen ar wahân, **Adroddiad Llinell Sylfaen Trefynwy** y gallwch ei chael drwy e-bostio: **mccregeneration@monmouthshire.gov.uk.**









# Dadansoddiad o’r Lle

# Dadansoddiad o'r Lle

Bu'r dadansoddiad lle yn archwilio cymeriad Trefynwy, y cyd-destun adeiledig, patrymau trafnidiaeth a symud, amwynderau a chyfleusterau lleol, asedau treftadaeth, seilwaith gwyrdd a glas, perygl llifogydd, pyrth y dref, darpariaeth parcio ac adeiladau a mannau o dan fygythiad er mwyn deall beth sy'n gwneud y dref yn arbennig a nodi lle mae mwyaf o angen gwelliannau.

Yr hyn sy'n dilyn yw crynodeb o'r canfyddiadau allweddol.

## Cymeriad a Chyd-destun

Mae Trefynwy mewn lleoliad strategol lle mae Afonydd Mynwy a Gwy yn cwrdd. Mae'n dref farchnad hanesyddol o fewn cefnwlad gwledig ehangach ac iddo 26,000 o boblogaeth. Esblygodd canol y dref, sy'n ffinio ag Eglwys Priordy y Santes Fair i'r gogledd a Phont Mynwy i'r de, o darddiad cyn-Rufeinig o gwmpas llain 500 metr o Stryd Mynwy a wasanaethai fel stryd farchnad gaeedig ar gyfer masnachu da byw.

Mae chwe ardal ac iddynt gymeriad unigryw wedi'u hadnabod, pob un â rhinweddau a heriau unigryw. Mae Stryd yr Eglwys yn cynnig amgylchedd cartrefol i gerddwyr gyda siopau annibynnol a Theatr Savoy. Mae ardal Bryn y Castell yn cynnwys asedau treftadaeth sylweddol ond mae'n teimlo'n ddatgysylltiedig o brif ardal canol y dref gyda mynediad gwael i gerddwyr. Mae Stryd Mynwy yn gwasanaethu fel y galon fasnachol fywiog ond mae o dan oruchafiaeth traffig a diffyg parth cyhoeddus o safon. Mae'r porth deheuol o amgylch Pont Mynwy yn cynnig mynedfa ddeniadol ond mae angen gwell seilwaith ac arwyddion i ddangos y ffordd. Mae ardal yr ysgol a'r ganolfan hamdden yn cyfrannu at fywyd cymunedol ond mae angen cysylltiadau cryfach â chanol y dref.

## Yr Amgylchedd Adeiledig a Threftadaeth

Mae canol y dref yn eistedd o fewn Ardal Gadwraeth sy'n eithriadol o gyfoethog mewn adeiladau rhestredig ac asedau hanesyddol. Mae'r tirnodau allweddol yn cynnwys:



- Castell Trefynwy (man geni Harri V)
- Pont ganoloesol Mynwy
- Neuadd y Sir rhestredig Gradd I
- Bwâu'r Lladd-dy
- Eglwys Priordy y Santes Fair.

Mae'r crynodiad hwn o asedau treftadaeth o fewn pellter cerdded i'w gilydd a chanol y dref yn creu cyfleoedd unigryw, er bod llawer yn dioddef o ddiffyg arwyddion da, dim llawer o wybodaeth dehongli, a chysylltedd annigonol. Mae'r dref yn gorwedd mewn dyffryn rhwng y ddwy afon ac wedi'i hamgylchynu gan gefn gwlad tonnog. Mae ei thopograffeg yn gymharol wastad, gan godi'n ysgafn tua'r gogledd.



# Dadansoddiad o'r Lle

### Symudiad a Seilwaith

Mae dadansoddiad trafnidiaeth yn datgelu darlun cymhleth. Mae cefnffordd yr A40 yn darparu cysylltedd strategol ardderchog i ganolfannau mawr o fewn awr o amser gyrru, ond mae'n creu rhwystrau sylweddol, yn enwedig wrth iddi wahanu'r dref oddi wrth Afon Gwy. Mae'r dref yn elwa o ddarpariaeth sylweddol ar gyfer parcio gydag 877 o leoedd o fewn 400 metr i'r canol, er bod cysylltiadau rhwng y meysydd parcio dwyreiniol a Stryd Mynwy yn wael. Gall meysydd parcio canol y dref fod yn llawn ar ddiwrnodau gemau clybiau chwaraeon lleol, gan greu pwysau ychwanegol ar leoedd sydd ar gael. Mae gwasanaethau bws yn gweithredu o orsaf fysiau, sy'n ganolog ond o ansawdd gwael. Mae seilwaith teithio llesol yn datblygu, gyda chynlluniau wedi eu hymrwymo gan gynnwys llwybr Williams Field Lane i Bont Mynwy a phont teithio llesol arfaethedig dros Afon Gwy.

### Asedau a Gwasanaethau Cymunedol

Mae Trefynwy yn elwa o seilwaith cymunedol cryf sy'n adlewyrchu ei rôl fel canolfan wasanaethau ar gyfer yr ardal wledig ehangach. Mae cyfleusterau addysgol yn cynnwys ysgolion y wladwriaeth a phreifat, gan wneud y dref yn boblogaidd gyda theuluoedd. Mae'r ganolfan hamdden sydd wedi'i hadnewyddu'n ddiweddar yn cynnig cyfleusterau cynhwysfawr, mae lleoliadau diwylliannol fel Theatr a Sinema Savoy yn gwasanaethu preswylwyr ac ymwelwyr, ac mae'r Rolls Hall o oes Victoria yn gartref i'r ganolfan gymunedol a'r llyfrgell. Mae cyfleusterau iechyd a gofal cymdeithasol yn cynnwys Canolfan Iechyd a Gofal Cymdeithasol Dyffryn Mynwy, ac mae cynlluniau ar gyfer canolfan iechyd a llesiant newydd yn agos at ganol y dref. Mae'r seilwaith gwyrdd a glas yn cynnwys Caeau Chwarae Chippenham, Caeau Vauxhall, rhandiroedd, ardaloedd glan yr afon, a chysylltiadau uniongyrchol â Thirwedd Genedlaethol Dyffryn Gwy, er y gellid integreiddio'r ardaloedd hyn yn well â chanol y dref.






### Seilwaith Digidol

Mae seilwaith digidol Trefynwy yn cyflwyno darlun cymysg o arloesedd a chyfyngiadau. Er i'r dref fod yn arloeswr digidol - gan ddod yn 'dref Wicipedia' gyntaf y byd yn 2012 trwy 'Monmouthpedia' ac fel tref WiFi gyntaf Cymru - mae llawer o'r seilwaith cynnar hwn wedi dirywio gyda Wi-Fi cyhoeddus yn gyfyngedig bellach ar gael y tu hwnt i fusnesau preifat. Mae cwmpas band eang ffeibr llawn yn parhau i fod yn dameidiog, gydag Openreach yn darparu cyswllt cyfyngedig yng nghanol y dref (er bod rhywfaint ar gael ar Stryd y Santes Fair), tra bod y darparwr amgen Ogi yn cwmpasu'r rhan fwyaf o ardaloedd preswyl ond nid y craidd masnachol. Mae busnesau ar strydoedd allweddol fel Stryd Mynwy yn dibynnu ar fand eang cyflym iawn o hyd at 80 Mbps, a all amrywio gyda'r defnydd. Mae signal ffonau symudol yn rhesymol gyda 4G o'r holl brif rwydweithiau a 5G o EE a Vodafone. Mae technoleg trefi SMART sy'n dod i'r amlwg yn cynnwys rhwydweithiau LoRaWAN sy'n cefnogi biniau ailgylchu craff, ac yn dangos potensial ar gyfer gwasanaeth Rhyngrwyd Pethau yn y dyfodol er gwaethaf cyfyngiadau cyfredol mewn hygyrchedd cyhoeddus.

Mae dadansoddiad llawn o'r lle ar gael yn **Adroddiad Llinell Sylfaen Trefynwy** y gallwch ei gael drwy e-bostio **mccregeneration@monmouthshire.gov.uk.**

# Gwendidau a Chyfleoedd

- Gwella'r Prif Byrth
- Gwella'r Pyrth Eilaidd
- Ardal Gadwraeth
- Caeau Hanesyddol
- Hawl Tramwy Cyhoeddus
- Llwybr Beicio Cenedlaethol (423)
- Gorsaf fysiau
- Golygfeydd Allweddol
- Llwybr Cenedlaethol
- Canol y Dref
- Adeiladau Rhestredig
- Adeilad Gwag
- Strydoedd Allweddol i'w Gwella
- Gwella Cysylltiadau i Gerddwyr
- Cynllun Datblygu Arfaethedig
- Bwâu'r Lladd-dy
- Meysydd Parcio




Canolfan hamdden




Caeau Chippenham



# Gwendidau a Chyfleoedd

Y Castell



Stryd Mynwy dan oruchafiaeth ceir



Stryd yr Eglwys



Bwâu'r Lladd-dy, angen adfywiad



Porth Pont Mynwy o'r de



Porth gwael i'r castell, dim arwyddion na theimlad o gyrraedd



Tanlwybr o dan yr A40, anghroesawgar a thywyll



Cysylltiad gwael â'r caeau chwarae



Gorsaf fysiau wael



Man cyrraedd gwael wrth y toiledau cyhoeddus, diffyg porth



Y Priordy, angen gwella cysylltiad a chodi nifer ymwelwyr



Neuadd y Sir



# Dadansoddiad SWOT: Lleoliad

## Cryfderau

- Cysylltiadau ffyrdd strategol yr A40, M4, M5
- Meysydd awyr, trenau prif reilffordd o fewn pellter awr o yrru
- Dinasoedd Bryste, Caerdydd, Caerloyw a Chasnewydd i gyd o fewn pellter awr o yrru
- Agos i ganolbarth Lloegr – cysylltedd ffyrdd rhagorol
- Agos i gefn gwlad ac amgylcheddau o arwyddocâd gan gynnwys Dyffryn Gwy a Fforest y Ddena

## Gwendidau

- Y dref wedi'i datgysylltu oddi wrth Afon Gwy yr A40
- Pan nad yw'r A40 yn gweithio, mae tagfeydd trwm drwy'r canol
- Dim gorsaf drenau, diffyg trafnidiaeth gyhoeddus
- Dim digon o gyflogaeth i wasanaethu'r boblogaeth sy'n arwain at yr angen i gymudo i'r gwaith
- Dim gorsaf drenau yn golygu lefelau uchel o gymudo mewn car

## Cyfleoedd

- Manteisio ar dwristiaid i Ddyffryn Gwy a Fforest y Ddena trwy gyfleusterau ar gyfer canŵwyr, beicwyr a cherddwyr
- Gwella trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol i helpu i leihau'r pwysau ar yr A40

## Bygythiadau

- Tagfeydd cynyddol ar yr A40 yn cadw pobl draw rhag ymweld â'r dref
- Oedi aml a hir ar yr M4 o gwmpas Casnewydd yn gwneud amserau teithio i Fryste, Casnewydd a Chaerdydd yn anwadal

# Dadansoddiad SWOT: Pobl a Chymunedau

## Cryfderau

- Cefnwlad gwledig gyda phoblogaeth o 26,000 (Rhaglan, Coleford, Ynysgynwraidd, Llangarron, Llangwm a Tryleg)
- Ysgolion y wladwriaeth a phreifat yn gwneud y dref yn ddewis poblogaidd i deuluoedd, sy’n anarferol ar gyfer tref o’i maint

## Gwendidau

- Bu gostyngiad o 200 ym mhoblogaeth y dref o 10,300 rhwng 2011 a 2022
- Maint poblogaeth tref fach – tebyg i Cil-y-coed yn ne’r sir
- Poblogaeth hyn a’r cyfartaledd, llawer o bobl ifanc yn symud i ffwrdd o’r dref pan maent yn gadael ysgol

## Cyfleoedd

- Twf mewn pobl sy’n symud i’r ardal yn eu 40au a phan maent yn ymddeol

## Bygythiadau

- Nid yw’n ardal twf cenedlaethol yng Nghymru (y Cynllun Cenedlaethol)

# Dadansoddiad SWOT: Sgiliau a’r Economi

## Cryfderau

- Diweithdra is na’r cyfartaledd
- Poblogaeth o sgiliau uwch a mwy cymwysedig yn cael ei adlewyrchu mewn mwy o swyddi rheolwyr a phroffesiynol

## Gwendidau

- Ychydig yn llai economaidd weithgar na’r cyfartaledd (adlewyrchu’r niferoedd o bobl wedi ymddeol)
- Swyddi yng nghanol y dref fel mewn gwerthu a gwasanaethu cwsmeriaid ychydig yn is na’r cyfartaledd
- Dwywaith cyfartaledd Cymru yn teithio dros 30km i’r gwaith (12.3%)

## Cyfleoedd

- 27% yn gweithio o’u cartrefi yn bennaf
- 14% yn cerdded i’r gwaith: dwbl cyfartaledd Cymru

## Bygythiadau

- Lefel uwch o berchnogaeth cerbydau yn arwain at fwy o symudedd  a mynediad at weithgareddau’r tu allan i’r dref
- Lefelau uchel o deithio i’r gwaith, rhoi pwysau ar y rhwydwaith ffyrdd ac mae’n cael effaith negyddol ar yr argyfwng hinsawdd

# Dadansoddiad SWOT: Cymuned

## Cryfderau

- Mwy na'r cyfartaledd o gartrefi 4 ac 1 ystafell wely
- Trigolion yn graddio'u hiechyd fel da iawn i dda
- Trefynwy ymysg y 10 tref fach fwyaf diogel yng Ngwent o ran troseddau a adroddir
- Gwasanaethau brys, gan gynnwys heddlu, tân ac ambiwlans ar gael i sicrhau diogelwch y cyhoedd

## Gwendidau

- Anghydraddoldeb: rhannau o Overmonnow ymysg y lleoedd mwyaf difreintiedig yn y sir

## Cyfleoedd

## Bygythiadau

- Prisiau uchel tai: 4 ward ymysg y 10 drutaf yn y sir

# Dadansoddiad SWOT: Siopa a Hamdden

## Cryfderau

- Waitrose sydd mwyaf poblogaidd ar gyfer prif siopa bwyd ledled y cefnwlad gwledig
- Stryd Mynwy: dyma'r brif gyrchfan siopa a hamdden, traean o'r ymweliadau ar gyfer siopa bwyd ychwanegol ac yna cwrdd â theulu a ffrindiau am goffi a siopa ar gyfer eitemau heblaw bwyd
- Mae cyfleusterau hamdden lleol yn cael eu defnyddio'n helaeth gan bobl leol: Theatr a Sinema Savoy, a Chanolfan Hamdden Trefynwy

## Gwendidau

- Siopa ychwanegol, y Co-op y tu allan i'r canol ar Rockfield Road sydd â'r gyfran fwyaf
- Mae cyfran sylweddol o siopa nwyddau cymharu yn cael ei wneud y tu allan i'r sir (Henffordd a Cribbs Causeway ger Bryste) neu ar-lein
- Mae gweithgareddau diwylliannol mwy yn aml yn denu trigolion i Gaerdydd, Henffordd a Bryste

## Cyfleoedd

- Gallai newid yn newisiadau defnyddwyr olygu y gallai'r dref ddarparu ar gyfer mwy o brofiadau hamdden a siopa

## Bygythiadau

- Gwario'r tu allan i'r dref oherwydd fod gan trigolion gyfleoedd i symud a gweithio mewn trefi a dinasoedd gerllaw

# Dadansoddiad SWOT: Gweithgarwch

## Cryfderau

- Cyngor tref rhagweithiol yn cynnal a chefnogi gweithgareddau a digwyddiadau, stiwardiaeth amgylcheddol, llesiant, a gwelliannau diwylliannol a threftadaeth
- Amrywiaeth a gweithgarwch grwpiau cymunedol, yn enwedig o gwmpas adfywio canol trefi a themâu amgylcheddol
- Nifer o gyfleusterau hamdden, gan gynnwys canolfannau chwaraeon, parciau a chanolfannau cymunedol, sy'n cefnogi bywyd cymunedol bywiog a gweithgar

## Gwendidau

## Cyfleoedd

- Adeiladu cynaliadwyedd hirdymor, sgiliau a gweithgarwch sefydliadau cymunedol a gwirfoddoli

## Bygythiadau

# Dadansoddiad SWOT: Symudiad a Seilwaith

## Cryfderau

- Nifer sylweddol o leoedd barcio o fewn pellter cerdded i ganol y dref
- Gorsaf fysiau yng nghanol y dref
- Cysylltiadau bws yn ystod y dydd i drefi a dinasoedd cyfagos: Y Fenni, Rhosan ar Wy, Henffordd, Cas-gwent, Casnewydd
- Canol tref cryno a hawdd ei gerdded gyda mynediad da i barciau a chyfleusterau hamdden cyfagos
- Llawer o bobl yn cerdded i'r gwaith: dwywaith cyfartaledd Cymru
- Buddsoddiad diweddar a thechnoleg trefi SMART, pyrth LoRaWAN a biniau clyfar

## Gwendidau

- Tagfeydd yn Stryd Mynwy a Sgwâr Agincourt
- Amgylchedd traffig uchel ar Stryd Mynwy
- Dim gorsaf drenau
- Gwasanaeth bws anaml a dim gwasanaethau bysiau pellter hir
- Mae'r A40 yn gwneud canol y dref yn hawdd i'w osgoi
- Arwyddion gwael, a diffyg gwybodaeth gyda llwybrau cenedlaethol
- Dim band eang ffeibr cyflym yn y rhan fwyaf o canol y dref

## Cyfleoedd

- Mae nifer o gynlluniau gwella sydd eisoes wedi'u cynllunio a'u mabwysiadu yn barod i'w gweithredu megis Stryd Mynwy, a gwelliannau teithio llesol gan gynnwys pont newydd dros Afon Gwy
- Uchelgeisiau ar gyfer buddsoddiad pellach/ gweithredu technoleg trefi SMART

## Bygythiadau

- Mae lefelau uwch na'r cyfartaledd o berchnogaeth ceir a phellteroedd cymudo hirach na'r cyfartaledd yn gwneud trefi a dinasoedd eraill yn hygyrch

# Dadansoddiad SWOT: Parth Cyhoeddus

## Cryfderau

- Canolfan hanesyddol ddeniadol o ansawdd uchel
- Meysydd parcio hawdd i'w gweld o'r de
- Amgylchedd gweladwy a deniadol Afon Mynwy
- Elfennau hanesyddol fel castell, amgueddfa gatrawd, neuadd y dref, Priordy, Neuadd y Sir, Pont Mynwy, Bwâu'r Lladd-dy

## Gwendidau

- Porth deheuol gwael o dan oruchafiaeth gorsaf betrol
- Mae Stryd Blestium yn cynnig profiad cyrraedd gwael i ymwelwyr
- Ni werthfawrogir ac ni fanteisir yn llawn ar lan yr afon: rhan helaeth o Afon Mynwy yn cael ei difetha gan faes parcio Home Bargains
- Cysylltiadau gwael o feysydd parcio gogleddol Stryd Blestium i'r canol
- Mae rhai nodweddion hanesyddol wedi'u cuddio heb arwyddion digonol fel Bwâu'r Lladd-dy, y castell a'r amgueddfa gatrawd, Gardd Nelson
- Mae maes parcio'r farchnad wartheg o ansawdd gwael yn gyffredinol ac yn fach o ran maint
- Gorsaf fysiau yn cynnig profiad cyrraedd gwael i ymwelwyr
- Mae gwrthdaro yn Stryd Mynwy rhwng defnydd cerbydau, cerddwyr a beicwyr ac mae gwendidau eraill fel ansawdd gwael y parth cyhoeddus a rheolaeth wael o ddŵr wyneb, annibendod
- Mae nifer o adeiladau hanesyddol mewn perygl o ddirywiad ffisegol pellach

## Cyfleoedd

- Mae nifer o gynlluniau gwella sydd eisoes wedi'u cynllunio a'u mabwysiadu yn barod i'w gweithredu megis Stryd Mynwy, arwyddion a goleuadau Church Street, ac ardal glan yr afon ger Stryd Blestium
- Cysylltiadau newydd ac uniongyrchol i gerddwyr o Stryd Mynwy i feysydd parcio
- Gwelliannau i'r porth deheuol: Cynnwys porth Stryd Cinderhill a phont ffordd newydd i mewn i'r dref
- Manteisio ar ffryntiad yr afon, cynllun gwella glan yr afon ac ymyl maes parcio Home Bargains gyda photensial am gylchdaith o Bont Mynwy i Fwâu'r Lladd-dy
- Croesfan pont droed ychwanegol, o faes parcio parc sglefrio i'r orsaf fysiau sy'n cysylltu â bwâu'r Lladd-dy: agor glan yr afon ar gyfer celf, crefftau, gweithdai, stondinau
- Creu porth yn Stryd y Priordy, Ffordd Dixton a Stryd y Mynach
- Arwyddion integredig a gwell at asedau hanesyddol

## Bygythiadau

- Gwariant y tu allan i'r dref oherwydd bod gan drigolion allu da i symud ac yn gweithio mewn trefi a dinasoedd cyfagos

# Dadansoddiad SWOT: Cymysgedd o Ddibenion

## Cryfderau

- Cynnig amrywiol
- Trin gwallt, iechyd a harddwch ymhlith y mwyaf amlwg, sy'n dangos presenoldeb cryf a galw am wasanaethau gofal personol
- Mae caffis, bwytai a siopau bwyd cyflym yn adlewyrchu sector bwyd a diod bywiog ac yn dangos pwysigrwydd dewisiadau bwyta yn ystod y dydd a gyda'r nos
- Mae siopau ffasiwn a dillad cyffredinol yn dangos bod canol y dref yn gyrchfan siopa draddodiadol
- Mae'r amrywiaeth o ddibenion heblaw manwerthu yn cynnwys swyddfeydd cyngor y dref, Neuadd y Sir ac amgueddfa, llyfrgell, sefydliadau addysgol, meddygfa, eglwysi, capeli, swyddfeydd sector preifat, ac anheddau preswyl
- Brandiau cryf a manwerthwyr angori: Waitrose, M&S Food, White Stuff, Fat Face a Joules

## Gwendidau

- Gwelir dirywiad yn y rôl siopa gan y lleihad hirdymor mewn siopau cymhariaeth a chynnydd mewn siopau gwasanaethau a hamdden

## Cyfleoedd

- Manwerthwyr lluosog yn dal i gael eu denu i Stryd Mynwy ger Waitrose a Marks & Spencer Simply Food

## Bygythiadau

- Dewis amrywiol o siopau yn dal i fod yn gryf o gymharu â threfi eraill ond hefyd yn fwy bregus i dueddiadau cenedlaethol

# Dadansoddiad SWOT: Eiddo Gwag

## Cryfderau

- Ar ôl cyrraedd brig o 18% yn 2023 gostyngodd y cyfraddau i 10% yn 2024
- Mae canol y dref wedi cynnal rhenti sefydlog, gan berfformio'n well na threfi tebyg eu maint yn y rhanbarth lle mae lefel rhenti wedi gostwng

## Gwendidau

- Cyfraddau anwadal o eiddo gwag yn adlewyrchu cylchoedd economaidd ansefydlog dros 20 mlynedd
- Clwstwr o adeiladau gwag o amgylch Sgwâr Agincourt, Stryd yr Eglwys a White Swan Court
- Adeiladau gwag amlwg ar Stryd Mynwy gan gynnwys hen siop Peacocks a ddifrodwyd gan dân a hen fanciau
- Dim, neu fawr ddim, galw am ofod swyddfeydd

## Cyfleoedd

- Datblygu unedau 100 metr sgwâr o ansawdd uchel ar gost isel sy'n ddeniadol i busnesau bach a newydd sy'n barod i gymryd risg

## Bygythiadau

- Adeiladau mwy, yn enwedig hen fanciau yn gofyn am adewyddu neu ailfodelu sylweddol yn wynebu heriau ailosod heb fuddsoddiad a chymorth sylweddol

# Dadansoddiad SWOT: Hunaniaeth

## Cryfderau

- Tref farchnad siopa hanesyddol
- Ymddangosodd yn rhestr The Times o'r deg lle gorau i fyw yn y DU
- Tirnodau hanesyddol yn denu twristiaeth - fell Castell Trefynwy, man geni Harri V, a Phont ganoloesol Mynwy, yr unig bont afon gaerog sydd ar ôl ym Mhrydain
- Cysylltiadau hanesyddol â Henry Rolls, Treialon y Siartwyr, Charles Rolls a Rockfield Studio
- Yr amgylchedd naturiol a gweithgareddau awyr agored gan gynnwys lleoliad y dref ar Afon Mynwy ac Afon Gwy a'i agosrwydd at Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol Dyffryn Gwy, sy'n atyniad mawr i naturiaethwyr a cherddwyr

## Gwendidau

## Cyfleoedd


- Twf yn enw da gwyrdd a chynaliadwyedd y dref
- Adolygiad presennol o Strategaeth Farchnata Cyrchfannau Sir Fynwy

## Bygythiadau

- Dirywiad hirdymor digwyddiadau adnabyddus fel Gŵyl Trefynwy, er bod digwyddiadau a gwyliau newydd yn cychwyn dod yn rhan o weithgarwch canol y dref

# Heriau a Chyfleoedd

Trwy gymysgedd o sgyrsiau lleol a strategol, dadansoddi data a gwybodaeth arall ddefnyddio am Drefynwy, gallwn adnabod ei heriau a chyfleoedd allweddol i'r gymuned, busnesau a grwpiau a sefydliadau eraill lleol.




Bwâu'r Lladd-dy – cyfle am fywiogrwydd ar lan yr afon. Adfer y bwâu i dod â gweithgarwch i'r ardal hon. Gwella llwybrau a mynd i'r afael â phryderon ynghylch mynediad.

Cyfle am welliannau i'r gyffordd. Cyswllt allweddol â'r ysgol. Cyfle i gysylltu â bwâu i ddarparu cyswllt teithio llesol ar hyd yr afon ac i'r bont cerddwyr.

Integreiddio'r bont droed yn llawn â'r llwybr teithio llesol o amgylch Trefynwy. Cysylltu â'r llwybrau presennol i'r gogledd o'r afon yn ogystal â'r cyfle i greu llwybr ar hyd glan ddeheuol yr afon. Cyfle i gysylltu llwybrau ar hyd yr afon yn llawn â'r dref.

Man cyrraedd allweddol. Cyfle i integreiddio'r ardal hon gan greu man cyrraedd y tu ôl i Neuadd y Sir. Cyfle i integreiddio Sgwâr Beaufort, arwyddion a chelf cyrraedd. Cyfle i farchnadoedd a digwyddiadau dros dro fywiogi'r sgwâr a hyrwyddo cysylltiadau â'r castell.

Integreiddio'r castell a'i diroedd yn llawn â chanol y dref. Ymdrin â phroblemau canfod y castell, a gwelliannau ar hyd Bryn y Castell i Sgwâr Agincourt. Triniaethau i wyneb y briffordd yn creu lle sy'n canolbwyntio ar gerddwyr yma.

Cyfle allweddol i gysylltu â phrosiect y bont i gerddwyr dros Afon Gwy. Cysylltu â'r Clwb Rhwyfo ac i'r de a'r dwyrain o ganol y dref. Cyfle am borth dŵr yma a fydd yn cysylltu â'r bont droed a chreu man cyrraedd i gychod. Thema 'Tref ar Ddwy Afon'.

Prosiect wedi'i ymrwymo i wella Stryd Mynwy.

Cyfle yn yr orsaf fysiau i greu teimlad o gyrraedd a chysylltiadau â theithio llesol

Cyfle i gysylltu â Stryd yr Eglwys a White Swan Court. Cyfle am arwyddion, digwyddiadau animeiddio stryd, siopau dros dro a gweithgareddau eraill i annog prysurdeb yma.

Cynnig a ddatblygwyd o'r blaen ar gyfer llecyn gyhoeddus ar Stryd Blestium

Cyfle i ailddychmygu'r meysydd parcio hen fel mannau cyrraedd. Cyfle am arwyddion i'r dref a Chaeau Chippenham. Cyfle i gysylltu â Gerddi Nelson a thrwy gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 20-22 Stryd Mynwy a Chapel Hebron i greu llwybrau drwodd i'r dref.

Pwynt cyrraedd allweddol ar ymyl y dref. Cyfle am arwyddion. Cysylltiadau â gwelliannau teithio llesol a benderfynwyd eisoes ar Ffordd Rockfield.

# Yr Hyn a Ddywedodd Rhanddeiliaid

Rhoddodd rhanddeiliaid lleol - gan gynnwys perchnogion busnes, grwpiau cymunedol, ysgolion, a chynrychiolwyr preswylwyr - wybodaeth hanfodol a arweiniodd gyfeiriad y cynllun creu lleoedd hwn. Trwy weithdai a theithiau cerdded pwrpasol, roeddent yn dangos beth sy'n gwneud Trefynwy yn arbennig a lle mae angen gwelliannau fwyaf.

## Asedau Unigryw Trefynwy

Roedd rhanddeiliaid yn tynnu sylw'n gyson at glwstwr treftadaeth eithriadol Trefynwy, gyda'r Castell, Neuadd y Sir, Bwâu'r Lladd-dy, a Phriordy y Santes Fair yn creu crynodiad o asedau hanesyddol o fewn pellter cerdded nad oes gan ond ychydig iawn o drefi ddim byd cymharol. Roedd lleoliad y dref rhwng dwy afon yn cael ei ystyried yn nodwedd unigryw, ond na fanteisir yn llawn arni ar hyn o bryd.

Daeth yr ymdeimlad cryf o gymuned i'r amlwg fel cryfder sylfaenol, gyda chyfranogiad gweithgar gan sefydliadau lleol, eglwysi a chlybiau chwaraeon. Nodwyd bod digwyddiadau fel y twrnamaint rygbi ieuenctid blynyddol yn cyflwyno "cyfleoedd enfawr" i ddenu mwy o bobl i ganol y dref.




## Heriau Allweddol

**Cysylltedd ac Arwyddion:** Nodwyd arwyddion gwael i atyniadau allweddol fel y castell a chysylltiadau annigonol rhwng gwahanol ardaloedd o ganol y dref fel rhwystrau mawr. Dywedodd rhanddeiliaid fod ymwelwyr yn cael trafferth yn aml i ganfod safleoedd treftadaeth neu ddeall sut mae gwahanol ardaloedd yn cysylltu â'i gilydd.

**Marchnadoedd tameidiog:** Roedd y trefniant marchnad rhanedig rhwng gwahanol leoliadau yn cael ei weld fel rhywbeth sy'n tanseilio potensial Trefynwy fel tref farchnad, gyda galwadau am gydgrynhoi i greu awyrgylch mwy bywiog, prysur gyda "o leiaf 25 i 30 o stondinau."

**Apêl i Bobl Ifanc:** Roedd rhanddeiliaid yn mynegi pryder am y diffyg cyfleusterau ac atyniadau i bobl ifanc, gan gyfrannu at allfudiad o drigolion ifanc. Roedd hyn yn cael ei weld fel bygythiad i gynaliadwyedd hirdymor y dref.

**Pryderon am y Parth Cyhoeddus:** Tynnwyd sylw at broblemau cynnal a chadw adeiladau, yn enwedig uwchben lefel y ddaear ar Stryd Mynwy, ac at fannau annigonol ar gyfer eistedd neu dreulio amser yn tynnu oddi wrth apêl y dref.

# Yr Hyn a Ddywedodd Rhanddeiliaid

### Cyfleoedd Allweddol

Roedd rhanddeiliaid o'r farn fod gan **Fwâu'r Lladd-dy** botensial eithriadol i ddod yn gyrchfan unigryw, tra bod **Neuadd y Sir** yn cael ei hystyried fel catalydd a allai yrru ymwelwyr i ran uchaf y dref uchaf a chefnogi gweithgarwch y farchnad yn Sgwâr Agincourt.

Tynnwyd sylw at y **tanddefnydd o lan yr afon** ar hyd afonydd Gwy a Mynwy, ynghyd â'r farn fod cyfleoedd sylweddol i wella, gydag awgrymiadau ar gyfer popeth o gyfleusterau chwaraeon dŵr i well cysylltiadau i gerddwyr.

Y farn oedd bod gwelliannau i **gysylltedd trafnidiaeth**, yn enwedig mynd i'r afael âg amseroedd teithio anghyfleus bysiau ac archwilio gwell cysylltiadau rhanbarthol, yn hanfodol er mwyn cefnogi rôl y dref fel canolfan wasanaethau i'r ardal wledig ehangach.

Mae gwybodaeth o'r fath gan randdeiliaid wedi dylanwadu'n uniongyrchol ar weledigaeth y Cynllun a'r pum thema gyflawni ac wedi helpu i ganfod pa brosiectau fyddai'n gallu mynd i'r afael orau â heriau Trefynwy gan adeiladu ar ei chryfderau unigryw yr un pryd.






# Eich Gweledigaeth ar gyfer dyfodol Trefynwy




# Eich Gweledigaeth ar gyfer Dyfodol Trefynwy

Mae'r adran hon yn nodi gweledigaeth uchelgeisiol ond gyraeddadwy ar gyfer yr hyn y gallai canol tref Trefynwy fod: mwy bywiog, lliwgar a chroesawgar - lle mae treftadaeth gyfoethog yn rhan o fywyd bob dydd a lle mae trigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd yn mwynhau ei awyrgylch bywiog a'i ymdeimlad cryf o gymuned. Yn hytrach na chael ei datblygu ar wahân, mae'r weledigaeth hon wedi deillio'n uniongyrchol o ymgynghori helaeth â phobl leol - o sgyrsiau anffurfiol ar y stryd i weithdai ffurfiol gyda grwpiau cymunedol a busnesau.

Mae'r weledigaeth yn adlewyrchu'r gobeithion a'r dyheadau ar y cyd a glywsom dro ar ôl tro yn ystod ein hymgynghoriad, sy'n canolbwyntio ar bum thema allweddol: creu croeso gwell i'r dref; dathlu ein hanes a'n hafonydd; creu canol bywiog i'r dref; meithrin ysbryd cymunedol; a sicrhau bod Trefynwy yn barod ar gyfer dyfodol ac yn cael ei rheoli'n dda.

Nid gorfodi newid o'r tu allan yw'r bwriad ond meithrin a chydlynu'r egni a'r syniadau sydd eisoes o fewn y gymuned, gan greu cyfeiriad cyffredin y gall pawb weithio tuag ato.



## EICH GWELEDIGAETH AR GYFER TREFYNWY

**Mae Trefynwy wedi dod yn lle mwy byrlymus, lliwgar a chroesawgar - tref lle mae treftadaeth gyfoethog yn rhan o fywyd bob dydd a lle mae trigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd yn mwynhau ei awyrgylch fywiog a'i hymdeimlad cryf o gymuned. Fel Seren Dyffryn Gwy, mae'r dref yn arddangos ei swyn hanesyddol gyda balchder, gan gyfuno treftadaeth ag atyniadau ein dyddiau ni. Mae safleoedd hanesyddol yn cynnal gwyliau diwylliannol a marchnadoedd crefft, gan atgyfnerthu hunaniaeth unigryw Trefynwy, tra bod strydoedd gwyrdd, croesawgar yn cynnig siopau ffyniannus, bwyta allan amrywiol, ac adloniant. Mae digwyddiadau wythnosol, llwybrau beicio, a glan yr afon wedi'i adfywio yn creu cymuned ddeinamig, gysylltiedig a chynaliadwy, gan wneud Trefynwy yn gyrchfan flaenllaw ar gyfer diwylliant, hamdden, a chrwydro harddwch naturiol ei amgylchoedd.**

# Eich Nodau Cyflawni

Er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon, rydym wedi diffinio pum nod a ddaeth i'r amlwg o ymgynghori helaeth â'r gymuned.

## 1 Creu Canol Bywiog i'r Dref

Bydd strydoedd a sgwariau Trefynwy yn lleoedd croesawgar, cynhwysol lle mae ar bobl eisiau treulio amser, ac sydd â busnesau ffyniannus a gweithgareddau rheolaidd.

## 2 Dathlu'n Hanes a'n Hafonydd

Bydd Trefynwy yn arddangos ei threftadaeth unigryw a hunaniaeth ei hafonydd, trwy dirnodau hanesyddol wedi eu cysylltu'n dda a gwell mynediad i'r ddwy afon.

## 3 Meithrin Ysbryd Cymunedol

Bydd gan Drefynwy deimlad cryf o gymdeithas, gyda thrigolion yn cyfrannu'n weithgar at lunio dyfodol y dref a darparu lleoedd cynhwysol ar gyfer pob oed.

## 4 Creu Gwell Croeso

Bydd Trefynwy yn lle haws a mwy dymunol i'w gyrraedd, gyda phyrth deniadol ac arwyddion clir sy'n adlewyrchu cymeriad y dref.

## 5 Parod am y Dyfodol a chael ei Rheoli'n Dda

Bydd Trefynwy yn barod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol gyda dulliau clyfar a chynaliadwy o weithredu a rheolaeth gydgysylltiedig.

# Eich Amcanion Ategol

Mae'r amcanion ategol yn esbonio sut y caiff gweledigaeth y cynllun – o dan arweiniad ei phrif nodau – ei gwireddu'n ymarferol.

## Nod 1: Creu Canol Bywiog i'r Dref

**Gwneud Stryd Mynwy, Stryd yr Eglwys a Sgwâr Agincourt yn lleoedd mwy croesawgar lle mae ar bobl eisiau treulio amser, gan fynd i'r afael ag eiddo gwag a chefnogi busnesau newydd.**

**Amcanion Ategol:**

1.1 Gwella Porth: Creu pyrth deniadol, wedi eu harwyddo'n dda sy'n cyhoeddi'n glir cyrraedd Trefynwy ac sy'n adlewyrchu cymeriad y dref.

1.2 Canfod ffordd o gwmpas: Sicrhau bod ymwelwyr yn gallu canfod eu ffordd yn hawdd ac yn reddfol o bwyntiau cyrraedd i gyrchfannau allweddol yng nghanol y dref.

1.3 Hygyrchedd Cyffredinol: Gwneud canol y dref yn groesawgar ac yn hygyrch i bobl o bob oedran a gallu.

1.4 Safonau Cynnal a Chadw: Sefydlu a chynnal safonau uchel o ran glendid, cynnal a chadw a gorfodi yn yr holl fannau cyhoeddus.

## Nod 2: Dathlu'n Hanes a'n Hafonydd

**Blaenoriaethu gwelliannau yng nghalon hanesyddol Trefynwy a chofleidio hunaniaeth y dref fel 'Tref ar Ddwy Afon' trwy wella mynediad at asedau treftadaeth a dyfrffyrdd.**

**Amcanion Ategol:**

2.1 Cysylltedd Treftadaeth: Creu cysylltiadau clir, deniadol i gerddwyr a beicwyr rhwng tirnodau hanesyddol allweddol Trefynwy.

2.2 Mynediad at Lan yr Afon: Gwella mynediad cyhoeddus at Afonydd Gwy a Mynwy fel asedau cymunedol a'u mwynhau.

2.3 Dehongli Treftadaeth: Dod â hanes Trefynwy yn fyw trwy adrodd straeon a dehongli diddorol.

2.4 Bywiogi Asedau Hanesyddol: Sicrhau bod adeiladau a safleoedd treftadaeth yn cael eu defnyddio'n weithredol ac yn cyfrannu at fwrlwm y dref.

# Eich Amcanion Atodol

## Nod 3: Meithrin Ysbryd Cymunedol

**Cryfhau bywyd cymunedol Trefynwy trwy alluogi mwy o bobl i ddylanwadu ar ddyfodol canol y dref a chreu lleoedd cynhwysol i bawb.**

**Amcanion Ategol:**

3.1 Rhaglennu Cymunedol: Cefnogi digwyddiadau, gwyliau a gweithgareddau rheolaidd dan arweiniad y gymuned sy'n dathlu hunaniaeth leol.

3.2 Mannau Ymgynnull Cynhwysol: Darparu mannau croesawgar lle gall pobl o bob oed gyfarfod, cymdeithasu a theimlo eu bod yn perthyn.

3.3 Cynnwys Pobl Ifanc: Creu cyfleoedd a mannau sy'n apelio'n benodol at bobl ifanc a theuluoedd.

3.4 Perchnogaeth Gymunedol: Galluogi trigolion a grwpiau cymunedol i gymryd rhan weithredol mewn llunio a rheoli mentrau canol trefi.

## Nod 4: Creu Gwell Croeso

**Ei gwneud yn haws a mwy dymunol i bobl gyrraedd yn Nhrefynwy – boed mewn car neu fws neu ar feic neu ar droed – trwy wella golwg a theimlad mannau cyrraedd allweddol.**

**Amcanion Ategol:**

4.1 Mannau Hyblyg ar gyfer Digwyddiadau: Creu mannau cyhoeddus deniadol y gellir eu haddasu ar gyfer cynnal marchnadoedd, perfformiadau a digwyddiadau cymunedol.

4.2 Lleihau Eiddo Gwag: Sicrhau canol tref bywiog gyda chyn lleied â phosibl o eiddo gwag hirdymor trwy gymorth ac ymyrraeth wedi'i dargedu.

4.3 Amrywiaeth Busnesau: Denu a chadw cymysgedd amrywiol o fusnesau, gwasanaethau a dibenion cymunedol annibynnol.

4.4 Economi gyda'r nos: Sefydlu Trefynwy fel cyrchfan ddeniadol gyda'r nos gyda chynigion bwyta, adloniant a diwylliannol o safon

# Eich Amcanion Atodol

## Nod 5: Tref Barod am y Dyfodol ac sy'n cael ei Rheoli'n Dda

**Arfogi Trefynwy fel ei bod yn ffynnu i genedlaethau'r dyfodol trwy dechnolegau clyfar a chynaliadwy, rheolaeth gydlynol o ganol y dref, a seilwaith gwyrdd sy'n cyfoethogi bywyd bob dydd.**


**Amcanion Ategol**

5.1 Integreiddio Technoleg Smart: Gweithredu atebion digidol sy'n gwella profiad ymwelwyr, cymorth busnes ac effeithlonrwydd gweithredol.


5.2 Gwydnwch Amgylcheddol: Diogelu canol y dref yn erbyn newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol trwy seilwaith gwyrdd ac arferion cynaliadwy.

5.3 Cysylltedd Digidol: Sicrhau bod seilwaith digidol rhagorol yn cefnogi busnesau, trigolion ac ymwelwyr.

5.4 Rheoli Cydgysylltiedig: Sefydlu partneriaethau a systemau effeithiol ar gyfer rheoli a gwella canol y dref yn barhaus.




# Eich Cynllun ar gyfer Trefynwy




# Eich Cynllun ar gyfer Trefynwy

**Man cychwyn yn unig yw gweledigaeth glir: mae'r adran hon yn canolbwyntio ar sut rydym yn troi'r weledigaeth honno'n weithredu.** Mae'n dechrau trwy grynhoi sut yr ymatebodd y gymuned i'n cynigion cychwynnol trwy ymgynghoriad mis Mawrth 2025, gan ddangos sut mae'r adborth hwn wedi dylanwadu'n uniongyrchol ar ein dull terfynol. Yna mae'n amlinellu'r strategaeth gyffredinol ar gyfer canol tref Trefynwy, gan ei rhannu yn ôl themâu allweddol a phrosiectau ymarferol a fydd yn cael yr effaith fwyaf. Mae hefyd yn cydnabod nad ydym yn dechrau o'r dechrau - mae prosiectau presennol sydd eisoes ar y gweill neu sydd wedi'u cymeradwyo yn flaenorol yn rhan o'r dull cydgysylltiedig hwn. Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar yr hyn sydd angen ei wneud i drawsnewid Trefynwy, tra bod yr adran ganlynol yn mynd i'r afael â sut y bydd yn cael ei gyflawni.




## Ymateb y Gymuned i'r Cynllun Drafft

Cyn nodi ein dull cyflawni, mae'n bwysig esbonio sut ymatebodd y gymuned i'n cynigion cychwynnol. Roedd yr ymgynghoriad cyhoeddus cynhwysfawr ym mis Mawrth 2025 yn hanfodol er mwyn dilysu ein gweledigaeth, nodi pa brosiectau oedd â'r gefnogaeth gymunedol gryfaf, a mireinio sut y dylid eu gweithredu. Mae'r adborth hwn, gan 250 o drigolion, ymwelwyr a rhanddeiliaid, wedi dylanwadu'n uniongyrchol ar flaenoriaethu a dyluniad y prosiectau a amlinellir yn yr adran hon.




## Cefnogaeth gymunedol gref

**Canolbwyntio ar Dreftadaeth a Diwylliant:** Roedd y gymuned yn cefnogi'n gryf bwyslais y cynllun ar dreftadaeth, gydag **86%** yn cefnogi "Dathlu Ein Hanes a'n Afonydd" ac **84%** yn cefnogi cynigion Bwâu'r Lladd-dy. Roedd llawer yn gweld hyn fel rhywbeth â'r potensial i ddod yn atyniad newydd mawr i'r dref.

**Gwelliannau Stryd yr Eglwys:** Derbyniodd y gwelliannau i'r ardal annibynnol hon gefnogaeth ysgubol (**82%** yn cytuno), gydag ymatebwyr yn canmol potensial yr ardal i ddod yn ardal siopa treftadaeth unigryw. Fodd bynnag, daeth cynnal a chadw adeiladau a gorfodaeth i'r amlwg fel rhagofynion hanfodol.

**Cydgrynhoi Marchnadoedd:** Daeth consensws cryf i'r amlwg ar gyfer dod â marchnadoedd tameidiog Trefynwy at ei gilydd yn Sgwâr Agincourt (cefnogaeth o **83%**), gyda llawer yn nodi bod y trefniant rhanedig presennol yn brin o oeffaith ac yn galw am leoliad marchnad unedig gyda chynnyrch lleol o ansawdd uwch.

## Eich Cynllun ar gyfer Trefynwy

### Blaenoriaethau clir a ddaeth i'r amlwg

**Eiddo Gwag fel Prif Flaenoriaeth:** Roedd **55%** o'r ymatebwyr yn nodi mynd i'r afael ag eiddo gwag fel eu blaenoriaeth bwysicaf, ac yna gwelliannau i Fwâu'r Lladd-dy (**41%**) a Stryd yr Eglwys (**30%**). Roedd hyn yn cadarnhau dealltwriaeth rhanddeiliaid o effaith adeiladau gwag ar apêl y dref.

**Anghenion Seilwaith Ymarferol:** Cafwyd cefnogaeth gref i welliannau i'r orsaf fysiau (**73%** yn cytuno) a gwell cyfleusterau cyhoeddus, yn enwedig gwell cyfleusterau toiledau yn Stryd Blestium (cefnogaeth o **80%** i welliannau).




### Pryderon Cymunedol a Gwelliannau

**Traffig a Hygyrchedd:** Dangosodd safbwyntiau cymysg ar gynigion ar gyfer y pyrth bryderon sylweddol am lif traffig a hygyrchedd. Dim ond **55%** oedd yn cefnogi gwelliannau Stryd Cinderhill a **48%** yn cefnogi newidiadau i Ffordd Dixton, gyda llawer yn nodi pryderon y byddai culhau ffyrdd yn effeithio ar gerbydau brys, traffig ysgolion, a mynediad i'r anabl.

**Gwella'r hanfodion:** Daeth themâu cyson i'r amlwg ynglŷn â mynd i'r afael â hanfodion yn gyntaf - atgyweiriadau ffyrdd, glanhau strydoedd, tynnu chwyn, a chynnal a chadw adeiladau - cyn mynd ar drywydd prosiectau newydd. Pwysleisiodd llawer bwysigrwydd cael y pethau sylfaenol hyn yn iawn.



Caiff canfyddiadau llawn y cam ymgynghori cyhoeddus eu dadansoddi'n llawn mewn dogfen ar wahân, **Adroddiad Ymgynghori Trefynwy** y gallwch ei chael drwy e-bostio **mccregeneration@monmouthshire.gov.uk.**

# Eich Cynllun ar gyfer Trefynwy

**Sut y Dylanwadodd hyn ar ein Dull terfynol:**

Cafodd adborth yr ymgynghoriad ddylanwad uniongyrchol ar y strategaeth gyflawni ac ar flaenoriaethau'r prosiectau a ganlyn. Roedd y newidiadau allweddol yn cynnwys:

**Canolbwynio ar bobl ifanc a darpariaeth aml-genhedlaeth:** Arweiniodd cydnabyddiaeth mai anghenion pobl ifanc a dderbyniodd y radd isaf yn y ddarpariaeth bresennol at gryfhau elfennau rhwng cenedlaethau mewn prosiectau lluosog, o weithgareddau'r farchnad i fannau cymunedol. Bydd canolbwyntio mwy ar gyfleusterau a gweithgareddau sy'n addas i deuluoedd yn sicrhau bod canol y dref yn gweithio ar gyfer pob cenhedlaeth.

**Blaenoriaethu Prosiectau:** Roedd cymorth cymunedol yn ffactor pwysig wrth benderfynu pa brosiectau ddylai gael blaenoriaeth. Mae ffafriaeth gymunedol glir i fynd i'r afael ag eiddo gwag a chefnogaeth gref i brosiectau treftadaeth yn rhoi canllawiau hanfodol ar gyfer ymyriadau dilyniannu.

**Canobwyntio ar Reoli Lleoedd yn Well:** Arweiniodd y pwyslais ar fynd i'r afael â hanfodion yn gyntaf - glanhau strydoedd, tynnu chwyn, a chynnal a chadw adeiladau - at ffocws cryfach ar weithgareddau rheoli lleoedd ac enillion hawdd sy'n rhoi gwelliannau gweladwy ar unwaith.

**Pwyslais ar Graidd Canol y Dref:** Roedd adborth cymunedol yn cadarnhau pwysigrwydd canolbwyntio adnoddau ar graidd canolog Trefynwy - Stryd Mynwy, Stryd yr Eglwys, a Sgwâr Agincourt - yn hytrach na gwasgaru ymdrechion ar draws lleoliadau pyrth lluosog.

**Gwella Pyrth:** Roedd pryderon am draffig yn arwain at ystyriaeth fwy gofalus o gynigion i gulhau ffyrdd, gyda mwy o bwyslais ar welliannau diogelwch i gerddwyr yn hytrach na newidiadau sylweddol i briffyrdd yn nyluniadau terfynol y prosiect.

**Gweithredu fesul cam:** Arweiniodd cefnogaeth gref i Fwâu'r Lladd-dy ynghyd â chydnabyddiaeth o heriau ymarferol at ddull realistig fesul cam gan ddechrau gydag atgyweiriadau hanfodol cyn gwella cyfleusterau ymwelwyr.

**Canolbwyntio ar Hygyrchedd Gwell:** Arweiniodd pryderon am heriau hygyrchedd ar hyn o bryd at gryfhau gofynion hygyrchedd yn yr holl gynigion ar gyfer y parth cyhoeddus.

# Blaenoriaethau Gofodol

## Stryd Mynwy a Stryd Blestium

Mae Stryd Fynwy a Stryd Blestium yn rhan ganolog o ymdrechion adfywio Trefynwy gydag astudiaethau ac ymgynghoriadau blaenorol wedi cynhyrchu cyfres o gynlluniau a gymeradwywyd. Mae gan Brosiect Ailddychmygu Stryd Mynwy y potensial i drawsnewid yr ardal fasnachol allweddol hon yn lle bywiog, cyfeillgar i gerddwyr, sy'n cynnwys troedffyrdd ehangach, tirlunio, a lleoedd ar gyfer seddi awyr agored. Mae'r dyluniad yn ymgorffori elfennau cynaliadwy fel gerddi glaw a phlannu coed, gan wella ymddangosiad cyffredinol y stryd wrth hyrwyddo teithio llesol a chynaliadwyedd. Mae cynigion Stryd Blestium ac ardal glan yr afon yn creu llecyn dinesig cryf, gwell hygyrchedd at Afon Mynwy a gwell tirlunio. Mae'r gwelliannau hyn yn cynnwys lleihau goruchafiaeth traffig, cynyddu hygyrchedd i gerddwyr, a chreu lleoedd i eistedd a mannau ar gyfer digwyddiadau a pherfformiadau  newydd wrth ochr yr afon.

## Pyrth y Dref

Mae pyrth allweddol Trefynwy, yn enwedig ar gyrion y dref, yn hanfodol er mwyn creu'r argraffiadau cyntaf cywir. Mae cyfle clir i wella'r mynedfeydd hyn gydag arwyddion gwell, tirlunio ac o bosibl gweithiau celf sy'n diffinio cymeriad a threftadaeth y dref. Dylid cysylltu hyn â gwelliannau presennol a arfaethedig i deithio llesol, gan gynnwys y bont droed newydd dros Afon Gwy. Mae'r bont hon yn gwella cysylltedd â chymdogaethau allanol y dref ac yn gwella cysylltiadau â Llwybr Clawdd Offa, gan wneud y dref yn ganolfan gref ar gyfer teithio llesol a thwristiaeth. Bydd y cynllun hefyd yn archwilio opsiynau ar gyder gwella pontydd troed presennol a chreu llwybrau ar hyd Afon Mynwy, gan gysylltu'r dref â Rockfield a lleoliadau allweddol eraill.

## Ardal Bryn y Castell a Stryd yr Eglwys

Mae clwstwr treftadaeth a diwylliannol Trefynwy sy'n cynnwys y castell, yr amgueddfa filwrol, Neuadd y Sir, neuadd y farchnad, Theatr Savoy, Priordy y Santes Fair, a Bwâu'r Lladd-dy - yn ffurfio grŵp eithriadol o atyniadau yng nghanol y dref. Mae Theatr Blake hefyd oddi ar Stryd Glyndŵr, gan ychwanegu at y gweithgarwch celfyddydol a diwylliannol. Er bod yr asedau hyn o fewn munudau i'w gilydd, nid oes teimlad cryf o gysylltedd iddynt ar hyn o bryd. Mae'r cynllun creu lleoedd yn ceisio'i gwneud yn haws canfod y ffordd, gwell dehongli a rhaglennu gweithgareddau yn yr ardal hon, gan helpu i ddod â'r mannau hyn yn fyw a chreu profiad diwylliannol cydlynol. Mae ardal Stryd yr Eglwys, gyda'i stryd a'i iardiau llawn cymeriad, sydd wedi ei neilltuo i gerddwyr, yn cynnig potensial mawr i wella'r profiad siopa annibynnol a'i mannau cymdeithasol.

Mae gan fuddsoddiadau mawr mewn amgueddfeydd a chynnig newydd i ymwelwyr yn Neuadd y Sir y potensial i weithredu fel catalydd ar gyfer newid yn yr ardal hon. Byddant yn annog mwy o ymwelwyr ac yn creu mwy o gyfleoedd ar gyfer marchnadoedd a gweithgareddau rheolaidd yn Sgwâr Agincourt, gan roi hwb i egni a bywiogrwydd yr ardal - gan roi rheswm i'w denu trwy Stryd Mynwy. Bydd dehongliad yr amgueddfa newydd hefyd yn annog ymwelwyr i archwilio treftadaeth, afonydd a straeon canol y dref.

## Cyrraedd Canol y Dref

Boed rhywun yn cyrraedd ar fws neu gar, yn cerdded neu ar olwynion, mae angen i brif fannau cyrraedd Trefynwy fod yn groesawgar ac yn hawdd eu defnyddio. Bydd gwelliannau i'r orsaf fysiau a'r meysydd parcio yn canolbwyntio ar geisio sicrhau'r defnydd mwyaf posibl ohonynt trwy fannau o ansawdd gwell, arwyddion clir, a chysylltiadau uniongyrchol ac amlwg â Monnow Street a chlwstwr treftadaeth a diwylliannol ehangach y dref ar ben uchaf canol y dref. Gan fod afonydd Mynwy a Gwy yn ganolog i hunaniaeth Trefynwy, mae cyfleoedd hefyd i wella'r pyrth dŵr i ymwelwyr sy'n cyrraedd ar ganŵ a chychod eraill, gan integreiddio'r dref ymhellach â'i hamgylchfyd naturiol.

# Fframwaith Blaenoriaethu

Mae'r adran ganlynol yn manylu ar y prosiectau creu lleoedd arfaethedig yn ôl thema. Mae rhai yn cael eu darlunio gyda chynlluniau a lluniadau mwy datblygedig, eraill gyda delweddau a oedd yn bod eisoes er mwyn rhoi enghreifftiau o beth allai gweithredu ffisegol fod.

### Y Broses Flaenoriaethu

grŵp llywio lleol i ystyried beth ddylai'r pwyslais cychwynnol fod, gan dderbyn y bydd rhai prosiectau mwy yn cymryd amser i'w datblygu a'u gweithredu. Y brif nod o'r broses hon yw asesu a threfnu prosiectau a chynigion yn y cynllun creu lleoedd mewn ffordd gyson sy'n sicrhau eu bod yn cyd-fynd â gweledigaeth, nodau ac amcanion Trefynwy, tra hefyd yn ystyried eu dichonoldeb, eu heffaith a'r gallu i'w cyflawni.

Cyn i brosiectau gael eu hasesu, fe'u diffinnwyd yn ôl eu math, fel y dangosir isod:

| Math o Brosiect | Diffiniad |
|---|---|
| Strategol a Galluogi | Astudiaethau, partneriaethau, llywodraethu, neu strategaethau marchnata |
| Gweithredol a Rhaglenni | Digwyddiadau, arwyddion, stondinau dros dro, cymorth i fusnesau, platfformau digidol |
| Seilwaith Cyfalaf | Gwellianau i'r parth cyhoeddus, adeiladau, strydlun, neu i symudedd |

Yna gweithredwyd y broses ganlynol:

**1. Effaith**

A yw'r prosiect yn cefnogi'n uniongyrchol un neu fwy o naw amcan y cynllun?

**2. Cefnogaeth y Gymuned a Rhanddeiliaid**

A yw'r prosiect wedi cael ei gefnogi wrth ymgynghori? A oes cefnogaeth gref gan y gymuned neu bartneriaid?

**3. Parodrwydd y Prosiect**

A yw'r prosiect wedi bod yn destun gwaith dichonoldeb neu ddatblygu cynllun? Oes arfarniad wedi bod o unrhyw ganiatadau statudol sy'n debygol o fod yn angenrheidiol? Oes unrhyw ystyriaethau tir neu ffisegol sydd angen eu goresgyn?

**4. Llwybr Cyllid**

A yw ffynonellau cyllido posibl wedi eu canfod, ee Cronfa Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru, Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, Cronfa Dreftadaeth, grantiau cyfalaf Cyngor Sir Fynwy, buddsoddiad preifat?

**5. Costau Dangosol**

Beth yw'r amcangyfrif o'r costau?

**6. 6.Prif Sefydliad a Rheolaeth**

Pwy fyddai'n rheoli neu arwain y prosiect, er enghraifft Cyngor Sir Fynwy, Cyngor Tref Trefynwy, grwp cymunedol, y sector preifat, partneriaeth?

# Prosiectau Strategol a Galluogi

| Nod | Prosiect a Blaenoriaeth | Gweithgaredd | Costau |
|---|---|---|---|
| Dathlu'n Hanes a'n Hafonydd | Datblygiad Dibenion Cymysg Neuadd y Farchnad | Datblygu neuadd y farchnad fel lleoliad defnydd-cymysg cynaliadwy gyda chanolfan gelfyddydau a chrefftau, caffi, a lleoedd cymunedol aml-genhedlaeth, gan gynnwys cyfleusterau cyfeillgar i bobl ifanc gyda chysgod a Wi-Fi | £ |
| | Strategaeth gynhwysfawr ar gyfer arwyddion cyfeirio a llwybrau treftadaeth | Gosod system unedig o arwyddion sy'n dangos y ffordd a chysylltu meysydd parcio, atyniadau a chyrchfannau allweddol, wedi'i integreiddio â datblygu llwybrau treftadaeth a byrddau dehongli, i'w defnyddio ar gyfer archwilio'r Neuadd y Sir fel y ganolfan dreftadaeth ganolog a'r man cychwyn ar gyfer crwydro'r dref | £ |
| | Astudiaeth Ddichonoldeb Bwâu'r Lladd-dy | Cynnal astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer opsiynau datblygu yn y dyfodol law yn llaw ag atgyweiriadau hanfodol i benderfynu ar ddulliau ymarferol o greu cyrchfan gynaliadwy ar lan yr afon | £ |
| Creu Canol Bywiog i'r Dref | Protocolau Gorfodi ar gyfer cynnal a chadw adeiladau | Datblygu systemau i ymdrin â phroblemau cynnal a chadw ac adeiladau sy'n dirywio | £ |
| | Datblygu lleoedd gwaith hyblyg | Annog lleoedd gwaith sy'n cefnogi busnesau newydd, a mentrau cymdeithasol | £ |

Blaenoriaeth Uchel (gwyrdd) · Blaenoriaeth Ganolig (oren) · Blaenoriaeth Isel (coch)

£ <£100k · ££ £100k to £1m · £££ >£1m

# Prosiectau Strategol a Galluogi

| Nod | Prosiect a Blaenoriaeth | Gweithgaredd | Costau |
|---|---|---|---|
| Meithrin Ysbryd Cymunedol | **Creu Lleoedd Cymunedol o Dan Do** | Archwilio cyfleoedd o fewn datblygiadau fel neuadd y farchnad neu gyfleusterau cymunedol aml-genhedlaeth | £ |
| | **Lleoedd Cymunedol a Rhaglen Gymorth i Sefydliadau** | Cefnogi grwpiau cymunedol i ddod â lleoedd gwag yn ôl i ddefnydd ar gyfer gwasanaethau lleol gan greu lleoedd cymunedol cysgodol sy'n cynnwys cyfleusterau addas i bobl ifanc, gan sicrhau bod y lleoedd hyn i gyd yn gwasanaethu gweithgareddau cymunedol ac ymgynnull anffurfiol | £ |
| Tref Barod am y Dyfodol ac sy'n cael ei Rheoli'n Dda | **Safonau Cynnal a Chadw Rheolaidd i Fannau Cyhoeddus** | Sefydlu amserlenni cynnal a chadw parhaus a safonau ansawdd ar gyfer gwelliannau cynaliadwy | £ |

Blaenoriaeth Uchel | Blaenoriaeth Ganolig | Blaenoriaeth Isel | £ <£100k | ££ £100k to £1m | £££ >£1m

# Prosiectau Gweithredol a Rhaglenni

| Nod | Prosiect a Blaenoriaeth | Gweithgaredd | Costau |
|---|---|---|---|
| Creu Gwell Croeso | Rhaglen Lanhau Dwfn Blynyddol | Glanhau'n drylwyr ac adnewyddu cyfleusterau cyhoeddus, blychau planhigion, llwybrau cerdded, celfi stryd ac arwyddion | £ |
| | Rhaglen Wella'r Amgylchedd Gweledol | Cynllun cynhwysfawr i gael gwared ar ddodrefn stryd diangen ac archwiliad cygysylltiedig o arwyddion ledled y dref er mwyn hyrwyddo llwybrau a chyfleusterau treftadaeh gan leihau annibendod gweledol | £ |
| Creu Canol Bywiog i'r Dref | Gwelliannau Cydgysylltiedig i Flaen Siopau | Darparu grantiau a chanllawiau dylunio i wella apêl weledol ardaloedd siopa allweddol | £ £ |
| | Gwelliannau Strategol i Eiddo Gwag | Targedu adeiladau gwag amlwg ar Stryd yr Eglwys, Sgwâr Agincourt a Stryd Mynwy, yn enwedig hen fanciau a lleoliadau strategol | £ £ |
| | Rhaglen Siopau Dros Dro | Hyrwyddo dibenion dros dro mewn siopau gwag i brofi syniadau a meithrin hyder busnesau | £ £ |
| Meithrin Ysbryd Cymunedol | Rhaglennu Marchnadoedd a Digwyddiadau Sgwâr Agincourt | Sefydlu marchnnad draddodiadol grynodedig reolaidd yn Sgwâr Agincourt gyda seilwaith ategol (pŵer, seddau, cyfleusterau digwyddiadau) a chydgysylltu â digwyddiadau allweddol treftadaeth, celfyddydau, diwylliant ac amgylcheddol mwy drwy gydol y flwyddyn | £ |
| | Cymorth i Weithgarwch o dan Arweiniad y Gymuned | Cefnogi grwpiau cymunedol i ddatblygu rhaglenni rheolaidd yn hytrach na digwyddiadau untro | £ |

Blaenoriaeth Uchel | Blaenoriaeth Ganolig | Blaenoriaeth Isel | £ <£100k | ££ £100k to £1m | £££ >£1m

# Prosiectau Seilwaith Cyfalaf

| Nod | Prosiect a Blaenoriaeth | Gweithgaredd | Costau |
|---|---|---|---|
| Creu Gwell Croeso | **Cynllun Parth Cyhoeddus Stryd Blestium** | Gwella'r profiad o gyrraedd y fynedfa ddeheuol gyda gwell parth cyhoeddus a chyfleusterau (cynllun a gymeradwywyd) | £ £ £ |
| | **Gwelliannau i'r Orsaf Fysiau** | Ailddylunio'r orsaf gyda gwell cysgodfannau, gwybodaeth amser real, blaenoriaeth i gerddwyr a beicwyr, tirlunio a chelf gyhoeddus | £ £ |
| | **Man Cyrraedd Stryd Glyndwr a Neuadd y Sir** | Gwella amgylchedd ac arwyddion i gerddwyr er mwyn cysylltu ardal Stryd Glyndwr ac atyniadau treftadaeth | £ |
| | **Gwella Porth Stryd Cinderhill** | Creu mynedfa groesawgar o'r A40 gyda gwell cynllun cylchfan, seilwaith cerddwyr a beiciau, tirlunio ac arwyddion croeso | £ £ £ |
| | **Porth Ffordd Dixton** | Gwella'r porth gogleddol trwy gulhau ffyrdd, tirlunio, croesfannau blaenoriaeth i gerddwyr ac arwyddion porth | £ £ |
| Dathlu'n Hanes a'n Hafonydd | **Amgueddfa a Chanolfan Ddiwylliannol Neuadd y Sir** | Trawsnewid adeilad hanesyddol yn amgueddfa newydd gyda chasgliad yr Arglwydd Lyngesydd Nelson, orielau, lleoedd dysgu a mannau cymunedol | £ £ £ |
| | **Bwâu'r Lladd-dy** | Cyflawni atgyweiriadau strwythurol, gwaith cadwraeth ac ymdrin â phroblemau brys diogelwch a chynnal a chadw'r bwâu rhestredig Gradd II* | £ £ £ |

Blaenoriaeth Uchel | Blaenoriaeth Ganolig | Blaenoriaeth Isel | **£** <£100k | **££** £100k to £1m | **£££** >£1m

# Prosiectau Seilwaith Cyfalaf

| Nod | Prosiect a Blaenoriaeth | Gweithgaredd | Costau |
|---|---|---|---|
| Dathlu'n Hanes a'n Hafonydd | Porth Afon Gwy | Creu man cyrraedd croesawgar ar lan yr afon gyda gwell cysylltiadau â chanol y dref | ££ |
| | Gwella Ardal Hanesyddol y Castell | Gwella mynediad ac arwyddion cyfeirio at Gastell Trefynwy o Sgwâr Agincourt, gyda gwell llwybrau a gwybodaeth i gerddwyr | £ |
| | Ap integredig digidiol Treftadaeth ac Ymwelwyr | Datblygu ap cynhwysfawr sy'n cytuno profiadau treftadaeth rhithwith estynedig â gwybodaeth ymarferol i ymwelwyr (busnesau, digwyddiadau, parcio, trafnidiaeth) | ££ |
| Creu Canol Bywiog i'r Dref | Ailddychmygu Stryd Mynwy | Trawsnewid Stryd Mynwy yn amgylchedd sy'n canolbwyntio ar bobl, gyda phalmentydd lletach, lleoedd i eistedd y tu allan, gwell planhigion a gwell parth cyhoeddus (cynllun a gymeradwywyd) | £££ |
| | Gwella Ardal Annibynnol Stryd yr Eglwys | Adeiladu ar fwâu croesau a goleuadau a gymeradwywyd gydag arwyddion cydlynol, tacluso, a chymorth i fusnesau annibynnol | £ |
| | Gwellia Cysylltiadau i Gerddwyr | Creu llwybrau newydd i gerddwyr sy'n cysylltu meysydd parcio'r dwyrain â Stryd Mynwy, yn enwedig wrth fynd i ardaloedd rhan uchaf Stryd Mynwy | ££ |

Blaenoriaeth Uchel · Blaenoriaeth Ganolig · Blaenoriaeth Isel · £ <£100k · ££ £100k to £1m · £££ >£1m


# Prosiectau Seilwaith Cyfalaf

| Nod | Prosiect a Blaenoriaeth | Gweithgaredd | Costau |
|---|---|---|---|
| Meithrin Ysbryd Cymunedol | **Lleoedd ar gyfer Gweithgareddau Aml-genhedlaeth** | Datblygu lleoedd a rhaglenni a fydd yn dod â gwahanol grwpiau oedran at ei gilydd | £ |
| | **Parth Cyhoeddus Smart Aml-genhedlaeth** | Meinciau smart a byrddau gwybodaeth digidol sy'n cyfoethogi gwelliannau aml-genhedlaeth i'r parth cyhoeddus, creu lleoedd cysurus gyda phwyntiau gwefru, mynediad Wi-Fi a nodweddion rhyngweithiol sy'n apelio at bob oed | £ |
| Tref Barod am y Dyfodol ac sy'n cael ei Rheoli'n Dda | **Seilwaith Rhyngrwyd Pethau ar gyfer Effeithlonrwydd Gweithredol** | Ehangu'r rhwydwaith LoRaWAN presennol ar gyfer rhaglenni Rhyngrwyd Pethau gan gynnwys monitro amser-real rheoli gwastraff, lleoedd parcio sydd ar gael, ansawdd aer, planhigion stryd, iechyd a pherfformiad seilwaith i alluogi cynnal a chadw rhagweithiol | £ |
| | **Gwella Profiad Digidol Ymwelwyr** | Arwyddion digidol o ansawdd uchel mewn lleoliadau allweddol (Stryd Mynwy, Sgwâr Agincourt, meysydd parcio) yn cyfeirio ymwelwyr i atyniadau fel Pont Mynwy, y castell, amgueddfa, a Gardd Nelson gan leihau annibendod gweledol o arwyddion traddodiadol | £ |
| | **Systemau Data Rheoli Busnesau a Lleoedd** | Cyfrifyddion ymwelwyr wedi eu galluogi â Wi-Fi, seilwaith Wi-Fi cyhoeddus ledled y dref a dadansoddeg data i gefnogi busnesau gyda gwybodaeth am ymddygiad ymwelwyr, galluogi marchnata wedi'i dargedu, cynllunio digwyddiadau mewn modd gwybodus a strategaethau denu busnes | £ |

Blaenoriaeth Uchel · Blaenoriaeth Ganolig · Blaenoriaeth Isel · **£** <£100k · **££** £100k to £1m · **£££** >£1m

# Prosiectau Arfaethedig ar gyfer Lleoedd Penodol

Dyma rai o'r prosiectau ffisegol arfaethedig ar gyfer lleoedd penodol yn Nhrefynwy.



# Prosiectau a Ddatblygwyd o’r Blaen

Mae ymdrechion adfywio Trefynwy eisoes ar y gweill, gyda nifer o brosiectau trawsnewidiol wedi’u datblygu trwy ymgynghori cymunedol helaeth, gwaith dylunio manwl, a phrosesau cymeradwyo ffurfiol. Mae’r cynlluniau hyn yn cynrychioli buddsoddiad sylweddol ac yn dangos ymrwymiad y dref i newid cadarnhaol, gyda llawer eisoes wedi sicrhau cyllid a chymeradwyaeth gan Gabinet Cyngor Sir Fynwy.

Y mwyaf amlwg o’r rhain yw ail-ddychmygu Stryd Mynwy mewn modd cynhwysfawr, sydd wedi symud ymlaen trwy ymgynghoriad cyhoeddus manwl a datblygu dylunio i greu amgylchedd sy’n canolbwyntio ar bobl a fydd yn trawsnewid calon canol y dref. Law yn llaw â’r prosiect blaenllaw hwn, mae gwelliannau i Stryd Blestium, gwelliannau Stryd yr Eglwys, a’r gwaith a wneir ar hyn o byd i drawsnewid Neuadd y Sir, yn cynrychioli dull cydgysylltiedig o adfywio sydd wedi’i ddylanwadu gan fewnbwn cymunedol ac arbenigedd proffesiynol.

Mae’r prosiectau hyn a ymwymwyd yn ffurfio conglfaen trawsnewidiad Trefynwy ac yn gosod sylfaen gadarn y mae’r Cynllun Creu Lleoedd hwn yn adeiladu arni. Yn hytrach na dyblygu’r gwaith hwn, mae’r Cynllun yn cydnabod y cynlluniau hyn fel blaenoriaethau cyflawni hanfodol ac yn archwilio sut y gall prosiectau ategol ychwanegol wella eu heffaith ac ymestyn manteision adfywio ledled y dref yn ehangach.



# Ailddychmygu Stryd Mynwy

## Amcan:

### Trawsnewid prif stryd fasnachol Trefynwy yn fannau deniadol, gwyrdd a chyfeillgar i bobl, ac sy'n cefnogi cynnig siopa a hamdden ffyniannus, tra'n creu cysylltiadau cryfach â glan yr afon.





Bydd y prosiect cynhwysfawr hwn i'r parth cyhoeddus yn ail-ddychmygu Stryd Monnow fel coridor bywiog, sy'n canolbwyntio ar gerddwyr gan gydbwyso anghenion holl ddefnyddwyr y stryd wrth flaenoriaethu pobl dros gerbydau. Mae'r cynllun a gymeradwywyd yn cynrychioli newid sylfaenol o'r amgylchedd presennol o dan oruchafiaeth ceir i le croesawgar sy'n annog treulio amser, siopa a rhyngweithio cymdeithasol.

**Nodweddion Allweddol:**

- **Cynllun sy'n rhoi Blaenoriaeth i Gerddwyr:** Bydd y stryd yn cael ei thrawsnewid gyda phwyntiau croesi pwrpasol a throedffyrdd ehangach (yn amrywio rhwng 2m a 6m) i greu amgylchedd cerdded mwy cyfforddus sy'n annog ymwelwyr i dreulio amser yn yr ardal.
- **Seilwaith Cynaliadwy:** Bydd gerddi glaw a Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy (SUDS) yn cael eu hintegreiddio drwy'r holl ddyluniad, gan reoli dŵr ffo wyneb wrth ychwanegu seilwaith gwyrdd sy'n gwella apêl weledol y stryd.
- **Mynediad Cytbwys:** Wrth flaenoriaethu cerddwyr, mae'r dyluniad yn cynnal mynediad i gerbydau hanfodol gyda cherbytffordd ganolog wedi'i chynllunio i safonau'r briffordd, gan ganiatáu i ddau gerbyd nwyddau trwm basio'n gyfforddus, ynghyd â chwe bae llwytho wedi'u lleoli'n strategol i gefnogi busnesau lleol.
- **Gwell Amwynderau:** Bydd stondinau beicio diogel, dodrefn stryd o safon gan gynnwys seddi a meinciau, a chyfleusterau gwastraff priodol yn cael eu gosod i gefnogi preswylwyr ac ymwelwyr.
- **Mannau Hyblyg:** Bydd lleoedd ar gyfer seddi awyr agored yn darparu ar gyfer defnydd cyhoeddus a chyfleoedd masnachu i fusnesau lletygarwch, gan greu diwylliant caffi cyfandirol ei naws ar hyd y stryd.
- **Darpariaeth Parcio:** Bydd 32 o leoedd parcio yn cael eu cadw, gan gynnwys lleoedd i'r anabl ac arhosiad byr, gan sicrhau hygyrchedd ond tra'n lleihau goruchafiaeth gyffredinol cerbydau.

Mae'r prosiect yn ymgorffori egwyddorion dylunio cynaliadwy gyda rhaglen helaeth o blannu coed a thirlunio a fydd yn meddalu'r amgylchedd trefol gan gyfrannu at welliannau bioamrywiaeth ac ansawdd aer. Disgwylir i'r trawsnewidiad hwn roi hwb sylweddol i ymwelwyr, cefnogi busnesau lleol, a chreu cyrchfan y bydd trigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd eisiau treulio amser ynddi.

# Gwella Cysylltiadau i Gerddwyr

## Amcan:

### Gwella symudiad a hygyrchedd trwy holl ganol tref Trefynwy trwy greu cysylltiadau newydd a gwella'r llwybrau presennol rhwng cyrchfannau allweddol.

Bydd y prosiect hwn yn mynd i'r afael ag un o'r heriau mwyaf wrth gyrraedd Trefynwy - y cysylltedd gwael rhwng gwahanol ardaloedd o ganol y dref, yn enwedig rhwng y brif ardal siopa a chyfleusterau pwysig fel meysydd parcio, mannau gwyrdd, ac amwynderau cymunedol. Bydd y gwelliannau yn creu canol tref amlycach a mwy hygyrch sy'n annog crwydro ac ymweliadau hirach.

**Nodweddion Allweddol:**

- **Cysylltiadau Newydd o'r Dwyrain i'r Gorllewin:** Bydd cyfleoedd strategol i ddatblygu eiddo, gan gynnwys safleoedd yn 20-22 Stryd Mynwy a Neuadd Hebron, yn cael eu defnyddio i greu llwybrau newydd i gerddwyr sy'n chwalu'r rhwystrau rhwng gwahanol ardaloedd o ganol y dref.
- **Gwell Alïau:** Bydd troedffyrdd cefn presennol fel Howells Place yn cael eu huwchraddio gyda goleuadau gwell, gwell arwyneb, a nodweddion diogelwch gwell i'w gwneud yn lwybrau mwy deniadol a defnyddiol.
- **Mynediad i Gaeau Chippenham:** Bydd gwelliannau uniongyrchol i'r llwybrau sy'n arwain at Gaeau Chippenham yn cysylltu'n well â'r llecyn hamdden pwysig hwn â chanol y dref, gan annog gweithgareddau hamdden anffurfiol a chefnogi rôl yr ardal mewn digwyddiadau a gweithgareddau cymunedol.





- **Integreiddio Meysydd Parcio:** Bydd llwybrau uniongyrchol, clir newydd o'r gwahanol feysydd parcio i Stryd Mynwy yn helpu i ddatrys y cysylltedd gwael presennol sy'n cadw ymwelwyr draw rhag parcio mewn rhai lleoliadau.
- **Gwelliannau i Arwyddion Cyfeirio:** Bydd arwyddion clir a nodweddion gweledol yn helpu ymwelwyr i ganfod eu ffordd yn haws rhwng gwahanol rannau o ganol y dref.

Mae'r gwelliannau hyn i gysylltedd yn hanfodol er mwyn manteisio i'r eithaf ar fuddsoddiadau eraill yng nghanol y dref. Trwy ei gwneud hi'n haws i bobl symud rhwng y brif ardal siopa, meysydd parcio, mannau gwyrdd, ac atyniadau diwylliannol, bydd y prosiect yn helpu i greu profiad mwy cydlynol o ganol y dref sy'n annog ymweliadau hirach a chefnogi busnesau lleol.

# Cynllun Parth Cyhoeddus Stryd Blestium

## Amcan:

### Trawsnewid y profiad o'r porth deheuol gan greu cysylltiadau cryfach at Afon Mynwy trwy well parth cyhoeddus ac amwynderau newydd ar lan yr afon.

Mae'r cynllun hwn yn ymwneud â'r profiad o un o fannau cyrraedd pwysicaf Trefynwy, gan drawsnewid lle sydd ar hyn o bryd dan oruchafiaeth ceir yn borth deniadol sy'n dathlu lleoliad y dref ar lan yr afon. Bydd y prosiect yn creu calon ddinesig newydd ar gyfer de Trefynwy sy'n cysylltu Pont hanesyddol Trefynwy â chanol y dref yn ehangach.

**Nodweddion Allweddol:**

- **Dyluniad sy'n canolbwyntio ar gerddwyr:** Bydd y gerbytffordd yn cael ei leihau o ran lled tra'n cynnal mynediad angenrheidiol i gerbydau, gan ailddosbarthu gofod i greu lleoedd hael i gerddwyr ac sy'n blaenoriaethu pobl dros draffig.
- **Bywiogi Glan yr Afon:** Bydd man cyhoeddus newydd ar lan yr afon yn cael ei greu gyda chyfleusterau caffi a thoiledau, gan ddarparu cyfleusterau hanfodol wrth fywiogi'r lleoliad hwn ar lan yr afon a danddefnyddir ar hyn o bryd.
- **Lle Perfformio a Digwyddiadau:** Bydd lleoedd eistedd newydd a mannau perfformio pwrpasol ar hyd glan yr afon yn cefnogi digwyddiadau cymunedol, marchnadoedd a gweithgareddau diwylliannol, gan ddod â bywyd a bywiogrwydd i'r lleoliad porth hwn.
- **Integreiddio Pont Mynwy:** Bydd cysylltiadau gwell ag ardal hanesyddol Pont Trefynwy yn integreiddio'r tirnod eiconig hwn yn well â chanol y dref ehangach, gan annog ymwelwyr i grwydro ymhellach.
- **Gwell Cysylltedd:** Bydd cysylltiadau cryfach i gerddwyr rhwng meysydd parcio'r ardal a chanol y dref yn mynd i'r afael ag anawsterau canfod hygyrchedd  a chanfod y ffordd ar hyn o bryd sy'n cadw ymwelwyr draw rhag defnyddio'r cyfleusterau hyn.




- **Cysylltiad â'r Afon:** Bydd lleoedd gwell i fwynhau'r golygfydd a chymryd rhan mewn gweithgareddau yn cysylltu ymwelwyr yn well ag Afon Mynwy, gan ddathlu'r ased naturiol pwysig hwn sy'n diffinio cymeriad Trefynwy.

Mae'r cynllun yn gyfle sylweddol i greu argraff gyntaf gofiadwy i ymwelwyr sy'n cyrraedd o'r de, tra'n darparu cyfleusterau cymunedol newydd a fydd o fudd i drigolion a thwristiaid. Drwy leihau goruchafiaeth traffig a chreu mannau cyhoeddus o safon, bydd y prosiect yn sefydlu Stryd Blestium fel cyrchfan ynddi'i hun yn hytrach na dim ond ffordd trwy'r dref.

# Prosiectau Arfaethedig ar gyfer Lleoedd Penodol

## Amcan:

**Creu ardal dreftadaeth fyrlymus sy'n hyrwyddo clwstwr eithriadol Trefynwy o adeiladau hanesyddol a lleoliadau diwylliannol a'u cysylltu'n well â'i gilydd, gan wneud y dref yn gyrchfan ddeniadol i drigolion ac ymwelwyr.**

### Ardal Bryn y Castell a Stryd yr Eglwys

- Creu hunaniaeth gydlynol sy'n cysylltu asedau treftadaeth allweddol
- Integreiddio Castell Trefynwy yn well gan wella arwyddion a mynediad o Sgwâr Agincourt
- Adeiladu ar y gwelliannau arfaethedig i Stryd yr Eglwys a White Swan Court - gan gynnwys bwâu croeso, arwyddion a goleuadau - gyda mentrau i hybu nifer yr ymwelwyr a chefnogi busnesau annibynnol
- Cefnogi marchnadoedd a digwyddiadau diwylliannol mwy rheolaidd yn Sgwâr Agincourt er mwyn bywiogi'r lle hanesyddol hwn
- Sefydlu ardal dreftadaeth drawiadol o amgylch Sgwâr Agincourt, gan gynnwys Neuadd y Sir, Stryd yr Eglwys, y Castell a Bwâu'r Lladd-dy, gydag arwyddion a llwybrau gwell o fannau cyrraedd
- Mynd ati fesul cam i ymdrin â Bwâu'r Lladd-dy, gan ddechrau gydag atgyweiriadau a chynnal a chadw cyn archwilio opsiynau ar gyfer lle hygyrch ar lan yr afon at ddefnydd cymunedol

### Integreiddio Bryn y Castell

**Gwella ardal hanesyddol y castell:**

- Gwella amlygrwydd a mynediad o Sgwâr Agincourt trwy well arwyddion i ganfod y ffordd
- Mynd i'r afael â phroblemau canfod y ffordd trwy ddiffinio llwybrau cliriach o ganol y dref
- Gwella Bryn y Castell fel gofod sy'n canolbwyntio ar gerddwyr trwy driniaethau arwyneb
- Gosod byrddau dehongli sy'n tynnu sylw at hanes y castell a'i gysylltiad â Harri V
- Gwella amodau cerddwyr gyda goleuadau ac arwynebau
- Creu mynedfa groesawgar sy'n annog y cyhoedd i fynd yno




Hunaniaeth ystyrlon ac arwyddion clir



Mwy o wyliau diwylliannol a marchnadoedd

# Prosiectau Arfaethedig ar gyfer Lleoedd Penodol

## Amcan:

Creu ardal dreftadaeth fyrlymus sy'n hyrwyddo clwstwr eithriadol Trefynwy o adeiladau hanesyddol a lleoliadau diwylliannol a'u cysylltu'n well â'i gilydd, gan wneud y dref yn gyrchfan ddeniadol i drigolion ac ymwelwyr.

### Neuadd y Farchnad

Datblygu a chefnogi cymysgedd hirdymor cynaliadwy o ddibenion, gan gynnwys caffi arfaethedig a chanolfan celfyddydau a diwylliant (yn amodol ar gynllunio a thrwyddedu), yn ogystal ag archwilio dibenion posibl dros dro. Sicrhau bod neuadd farchnad fywiog a defnyddir yn dda yn cynhyrchu ac yn denu gweithgarwch ac yn helpu i ddenu ymwelwyr i'r ardal dreftadaeth.

### Neuadd y Sir

Mae'r cynlluniau i drawsnewid Neuadd hanesyddol y Sir yn cynnwys amgueddfa a chanolfan ddiwylliannol newydd, sy'n integreiddio casgliadau Amgueddfa Trefynwy, gan gynnwys casgliad yr Arglwydd Lyngesydd Nelson. Bydd yr ailddatblygiad yn cynnwys orielau, mannau dysgu a mannau cymunedol newydd i wella profiad ymwelwyr a gweithgarwch economaidd. Gyda chyllid bellach wedi'i sicrhau gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, bydd y prosiect yn creu canolfan ddiwylliannol gynaliadwy yng nghanol tref Trefynwy, sy'n denu mwy o ymwelwyr ac yn diogelu hanes lleol.


### Gweithgareddau Bywiogi Sgwâr Agincourt

**Cynllun gweithgareddau llecyn dinesig canolog:**

- Sefydlu rhaglen reolaidd o farchnadoedd a digwyddiadau diwylliannol
- Gosod seilwaith i gefnogi digwyddiadau, fel pŵer a dŵr
- Cryfhau cysylltiadau â phrofiad ymwelwyr Neuadd y Sir
- Gwella cysylltedd i gerddwyr rhwng Stryd Mynwy a rhan uchaf y dref
- Creu mannau addasadwy ar gyfer gweithgareddau
- Ychwanegu dodrefn stryd i annog hamddena
- Archwilio posibiliadau o gau ffyrdd dros dro ar gyfer digwyddiadau mwy




Datblygu ardal dreftadaeth



Amgueddfa a chanolfan ddiwylliannol Neuadd y Sir

# Prosiectau Arfaethedig ar gyfer Lleoedd Penodol

## Amcan:

Creu ardal dreftadaeth fyrlymus sy'n hyrwyddo clwstwr eithriadol Trefynwy o adeiladau hanesyddol a lleoliadau diwylliannol a'u cysylltu'n well â'i gilydd, gan wneud y dref yn gyrchfan ddeniadol i drigolion ac ymwelwyr.

### Gwella Stryd yr Eglwys a White Swan Court

**Ardal siopau annibynnol:**

- Adeiladu ar fwâu croeso a gymeradwywyd a gwelliannau diweddar i oleuadau
- Symleiddio dodrefn stryd ac arwyddion sy'n creu mynedfa anniben o Sgwâr Agincourt
- Gosod system arwyddion gydgysylltiedig i ewlla amlygrwydd o Stryd Mynwy
- Creu cyfleoedd ar gyfer siopau a stondinau dros dro
- Gwella'r awyrgylch gyda'r nos trwy oleuadau stryd newydd
- Cefnogi busnesau annibynnol drwy welliannau i'r parth cyhoeddus
- Datblygu mannau hyblyg ar gyfer marchnadoedd a digwyddiadau
- Gosod seilwaith digidol i gefnogi mentrau trefi SMART



Symeiddio dodrefn stryd



Gwella'r awyrgylch trwy oleuadau



Creu lle ar gyfer marchnadoedd a digwyddiadau

# Porth Stryd Cinderhill

## Amcan:

### Creu mynedfeydd croesawgar a thrawiadol i Drefynwy sy'n rhoi argraff gyntaf gref, arwain pobl i ganol y dref, ac adlewyrchu cymeriad y dref fel seren hanesyddol Dyffryn Gwy

Y brif fynedfa o'r A40 a'r Premier Inn:

- Ailgynllunio'r gylchfan gyda cherbytffyrdd culach i greu llwybrau pwrpasol i gerddwyr a beicwyr
- Ymgorffori seilwaith gwyrdd trwy blannu coed a thirlunio i greu mynedfa fwy deniadol a chroesawgar
- Gosod arwyddion croeso, gwaith celf posibl ac arwyddion i roi cyfarwyddiadau clir i gyrchfannau allweddol gan gynnwys canol y dref a'r orsaf fysiau
- Gweithredu croesfannau 'gofod ar y cyd' a llwyfannau dyrchafedig ar brif gyffyrdd i flaenoriaethu diogelwch cerddwyr tra'n cynnal llif traffig

Cysylltu â llwybrau teithio llesol | Gwella croesfannau cerddwyr | Arwyddion croeso

Tirlunio deniadol | Symleiddio trefn y ffyrdd | Croesfan llwyfan dyrchafedig



Ymestyniadau o'r pafin i hyrwyddo croesi diogel a gwell amlygrwydd



Arwyddion, byrddau gwybodaeth a mapiau integredig yn rhoi cyfarwyddiadau clir



Gwyrddu'r stryd o amgylch lleoedd parcio



Hyrwyddo beicio a cherdded fel dulliau trafnidiaeth â blaenoriaeth








1. Arwyddion porth o'r A40
2. Ailgynllunio'r gylchfan gyda cherbytffordd gulach i greu lle i lwybr cerdded a lôn feicio
3. Bydd troedffyrdd pwrpasol yn gwella diogelwch cerddwyr a beicwyr
4. Bydd seilwaith gwyrdd – coed a phlanhigion – yn gwneud yr ardal yn fwy deniadol a chroesawgar
5. Bydd ffyrdd culach yn rhyddhau lle ychwanegol ar gyfer plannu coed stryd
6. Cadw lle i barcio ar y stryd ar gyfer busnesau
7. Bydd arwydd croeso ac arwyddion cyfeirio yn arwain ymwelwyr at ardaloedd allweddol, megis canol y dref a'r orsaf fysiau
8. Cyffordd ar lwyfan dyrchafedig yn arwain at arafu cerbydau
9. Croesfannau parhaus yn arddull Copenhagen yn gwella diogelwch y prif gyffyrdd
10. 1Gwahanol ddeunyddiau arwyneb yn dangos croesfannau a llwyfannau dyrchafedig







1) Deunyddiau i adlewyrchu'r palet lleol. 2) Llinell derbyn troedffordd neu ymyl gwyrdd. 3) Mae deunyddiau wrth y llwyfan dyrchafedig yn atgyfnerthu blaenoriaeth cerddwyr. 4) Palet deunydd lleol. 5) Llecynnau o wyrddni. 6) Mae dewis deunydd yn bwysig mewn mannau croesi wedi'u hatgyfnerthu 7) Lle parcio y tu ôl i'r welyau gwyrdd a'r ymyl. 8) Mynediad i'r droedffordd o le parcio dros yr ymyl gwyrdd.





Argraff arlunydd o'r parth cyhoeddus newydd a'r porth o Stryd Cinderhill yn edrych i'r gogledd-orllewin o'r bont

# Yr Orsaf Fysiau

## Amcan:

### Gorsaf fysiau well ar gyfer Trefynwy sy'n ymgorffori arwyddion, tirlunio a stondinau newydd a fydd yn rhoi gorsaf ddeniadol a chroesawgar yn Nhrefynwy i bobl sy'n cyrraedd ar drafnidiaeth gyhoeddus

Mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar ailgynllunio'r orsaf fysiau, mewn ymateb i ymgynghori â gweithredwyr bysiau a rhanddeiliaid eraill. Mae'r ailgynllunio yn blaenoriaethu mannau cyfeillgar i gerddwyr a beicwyr, seilwaith gwyrdd, a chelf gyhoeddus wrth gynnal gweithrediadau effeithlon a lle ar gyfer bysiau.

- Creu llwybrau pwrpasol ar gyfer beicwyr a cherddwyr i alluogi teithiau teithio llesol cyfun
- Ymgorffori celf gyhoeddus ar hyd waliau ardal aros, gan gysylltu â menter strydoedd byw y cyngor tref
- Cyflwyno seilwaith gwyrdd a thirlunio i greu man cyrraedd mwy croesawgar
- Lleihau lle i gerbydau i greu troedffyrdd ehangach tra'n cadw lle i fysiau droi


Lle cyfeillgar i gerddwyr a beicwyr

Cysylltu â llwybrau teithio llesol

Cysgodfannau bws ac arwyddion newydd

Gwell man cyrraedd

Celf cyhoeddus ac arwyddion croeso




Amserlenni byw integredig




Arwyddion croeso



Cysgodfannau bws gyda seddau integredig, arwyddion, biniau a thoeau gwyrdd neu baneli solar











1. Ailddylunio llwyfannau'r orsaf fysiau
2. Croesfannau yn arddull Copenhagen i hyrwyddo symudiad cerddwyr a beicwyr
3. Seilwaith gwyrdd wedi'i ymgorffori mewn mannau cyhoeddus
4. Celf gyhoeddus i wella'r ardal ar hyd y wal i deithwyr sy'n aros
5. Arwyddion croeso
6. Lle ar y ffordd wedi culhau ond yn dal yn ddigon i fysiau droi
7. Troedffyrdd lletach a llwybrau beicio pwrpasol yn hyrwyddo teithio llesol
8. Cysgodfannau bws wedi eu huwchraddio gydag arddangosiadau gwybodaeth clir, wedi'u goleuo'n dda a hawdd eu defnyddio, gan gynnwys amserlenni bws
9. Bydd tirlunio yn meddalu golwg yr orsaf ac yn creu lle mwy croesawgar
10. Mwy o gyrbiau wedi'u gostwng yn caniatáu i amryw o fysiau lwytho a dadlwytho ar unwaith




Croesfannau newydd dros y ffordd yn amlygu blaenoriaeth beicwyr a cherddwyr





Arwyddion awtomatig yn olrhain bysiau yn fyw


Seddau wedi eu hymgorffori o fewn y llecyn










Deunydd newydd ar gyfer croesfannau yn amlygu croesfannau di-dor






Arwyddion croeso




Gellid cynnwys murlun neu waith celf stryd newydd ar hyd y wal sy'n arwain at yr orsaf fysiau er mwyn gwneud yr ardal yn fwy deniadol a bywiog. Gallai hyn gyfrannu at y rhan gymunedol o brosiect celf cymunedol Strydoedd Byw.

Cyfle i greu rhywbeth sy'n canolbwyntio ar y gymuned i ddathlu Trefynwy.

Cyfle i gynnwys artistiaid lleol neu ymgorffori straeon gan drigolion.




Argraff arlunydd o'r orsaf fysiau newydd o gyffordd Stryd Mynwy

# Bwâu'r Lladd-dy

## Amcan:

**Bywyd newydd i'r Bwâu. Bydd yr amgueddfa fyw hon yn bywiogi'r lle ac yn denu pobl i 'graidd y castell', gan gysylltu â'r castell, Neuadd y Sir ac ardal ogleddol hanesyddol y dref.**

Mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar ail-ddychmygu ac adnewyddu Bwâu'r Lladd-dy, a fydd yn creu cyrchfan newydd i Drefynwy.

**Mynd ati i ddatblygu fesul cam:**

- Cam 1: Cyflawni atgyweiriadau strwythurol hanfodol a gwaith cadwraeth i ddiogelu'r strwythur rhestredig gradd 2*, gan fynd i'r afael yn y lle cyntaf â phroblemau gollyngiadau carthffosiaeth, pryderon diogelwch a llystyfiant
- Unwaith y bydd yr atgyweiriadau cychwynnol wedi'u cwblhau, archwilio cyfleoedd ariannu i drawsnewid y Bwâu yn raddol yn gyrchfan unigryw ar lan yr afon trwy ddull graddol sy'n cynnwys:

**Cam cyntaf**

- Llwybrau diogel, hygyrch gyda goleuadau a seddi
- Gwell cysylltiadau â Phont Tibbs gyfagos a llwybr cylchol â Phont Inglis
- Dehongli treftadaeth y safle
- Datblygu gwaith celf cyhoeddus a chymunedol

**Ail gam**

- Datblygu mannau cymunedol a masnachol ar gyfer digwyddiadau a gweithgareddau
- Cysylltiadau â theithiau cerdded glan yr afon a Phont Tibbs
- Cyfleoedd newydd i bobl fwynhau lleoliad Afon Mynwy


Parth cyhoeddus newydd | Byrddau cerdded dros y dŵr | Wedi'i wneud yn gwbl hygyrch | Goleuadau i wella diogelwch | Creu amgueddfa fyw



Cyfle am stondinau bach dros dro a digwyddiadau cyfamserol


Cyfle i arddangos doniau lleol, er enghraifft trwy sioeau cerdd anffurfiol


Goleuadau cryf a diogel, addas i'r lle, yn creu amgylchedd diogelach bob amser o'r dydd











1. Dec pren i ymestyn dros Afon Mynwy, gan wneud lle defnyddiol ychwanegol
2. Llwyfan gwylio newydd sy'n edrych dros yr afon, sy'n cynnwys llwybr troed sy'n cysylltu â Phont Tibbs
3. Llwybrau hygyrch yn sicrhau dyluniad cynhwysol a gwell cysylltiadau i gerddwyr ledled yr ardal
4. Ramp hygyrch i'r Bwâu
5. Gwell cysylltiadau â Phont Tibbs
6. Seddi awyr agored i wneud y lle yn fwy defnyddiol, sy'n annog pobl i hamddena a threulio amser
7. Lle i gadeiriau a meinciau picnic a digwyddiadau cymunedol dros dro
8. Adfer y lladd-dai ar gyfer dibenion newydd, yn rhai cymunedol, hanesyddol a hamdden
9. Potensial am amgueddfa fyw
10. Ymgorffori goleuadau addas er mwyn sicrhau diogelwch a bod modd ei ddefnyddio ddydd a nos
11. Hen Neuadd y Farchnad (lefel y stryd)




Argraff arlunydd o'r llwybr byrddau cerdded cantilefer a gwell cysylltiadau â Phont Tibbs a llwybr glan yr afon

Gallai adnewyddu Bwâu'r Lladd-dy ei droi'n nodwedd allweddol yn y dref ar gyfer y gymuned a gweithgareddau ymwelwyr. Mae'r llwybr byrddau pren newydd yn ehangu'r lle gan ganiatáu ar gyfer seddi a goleuadau gwell. Byddai'r uwchraddio'n gwneud y lle hwn yn ddefnyddiol ar gyfer digwyddiadau fel barbeciw cymunedol, picnics, ffeiriau crefftau, neu ddigwyddiadau seiliedig ar fwyd. Byddai'r goleuadau yn creu awyrgylch croesawgar ar gyfer digwyddiadau gyda'r nos ac yn gwella diogelwch, tra byddai'r llwybr pren yn darparu cyswllt allweddol â Phont Tibbs a chysylltiadau teithio llesol. Dangosir yma rai argraffiadau artistig o ddiwrnod digwyddiad nodweddiadol, a diwrnod heb ddigwyddiad.




**Goleuadau strategol** 1




**Llwybr byrddau pren i ehangu a darparu lle ychwanegol defnyddiol**

**Deunyddiau carreg naturiol**









Argraff arlunydd o Fwâu'r Lladd-dy gyda'r nos (uchaf) a diwrnod heb ddigwyddiad (gwaelod)



Argraff arlunydd o Fwâu'r Lladd-dy yn edrych tua'r gogledd-ddwyrain o'r llwybr byrddau cerdded cantilefer


## Cam interim y gwaith ar gyfer Bwâu'r Lladd-dy.

Os na ellir gweithredu'r cam cychwynnol o adnewyddu'r Bwâu Lladd-dy ar unwaith, gellid gwneud rhai gwelliannau amgylcheddol sy'n ymwneud â mynediad, y parth cyhoeddus, clirio llystyfiant, ac adnewyddu mewnol cychwynnol y Bwâu.

Gallai'r cyfnod interim hwn ganolbwyntio hefyd ar gysylltu llwybrau teithio llesol a byddai'n hyrwyddo cysylltiadau ar draws yr afon trwy lwybrau pren sy'n ymestyn o'r grisiau o dan Fwâu'r Lladd-dy. Er yn symlach o ran cwmpas, byddai'r ateb interim hwn yn cynnig manteision gweladwy i'r gymuned wrth adeiladu momentwm ar gyfer y prosiect ar raddfa lawn a chreu llwybr diogel a hygyrch sy'n cysylltu â Phont Tibbs a rhwydweithiau teithio llesol eraill.

Byddai'r llwybr pren hwn yn gwella cysylltedd i gerddwyr, beicwyr a thrigolion lleol wrth ddarparu llwybr deniadol ar lan yr afon. Byddai'r elfen seilwaith allweddol hon o'r prosiect ehangach yn gwella hygyrchedd ar unwaith, yn dangos cynnydd ac yn dangos y potensial ar gyfer y cynllun llawn.

Gallai arwyddion syml ac elfennau sy'n dangos y ffordd amlygu'r llwybr pren fel rhan o rwydwaith ehangach, gan hyrwyddo ei rôl wrth annog dewisiadau teithio cynaliadwy.




Argraff arlunydd o gam interim Bwâu'r Lladd-dy

# Porth Ffordd Dixton

## Amcan:

### Creu mynedfeydd croesawgar a thrawiadol i Drefynwy sy'n rhoi argraff gyntaf gref, arwain pobl i ganol y dref, ac adlewyrchu cymeriad y dref fel seren hanesyddol Dyffryn Gwy.

Ar gyffordd Ffordd Dixton, mae cyfle gwirioneddol i groesawu pobl sy'n dod i'r dref o'r gogledd ac i greu porth deniadol, gwyrdd a thrawiadol yma.

- Culhau'r ffordd gan gynnal y safonau priffyrdd gofynnol, gan ymgorffori coed stryd, plannu a gerddi glaw posibl
- Blaenoriaethu symudiad cerddwyr a beicwyr trwy croesfannau lletach i gerddwyr a beiciau a chyffyrdd llwyfannau dyrchafedig gyda thriniaethau addas i'r wyneb
- Gosod planhigion strategol ar y pyrth rhwng troedffyrdd, y gerbytffordd a ffiniau preifat
- Cynnwys arwyddion porth a goleuadau sy'n atgyfnerthu'r teimlad o gyrraedd canol hanesyddol y dref.

Gwneud y gyffordd yn symlach | Lleihau maint corneli | Cyfeillgar i gerddwyr a beicwyr

Porth deniadol wedi'i dirlunio | Ymgorffori planhigion a system ddraeanio trefol newydd



Deunydd croesfannau yn blaenoriaethu cerddwyr ar gyffyrdd llwyfannau dyrchafedig




Palet deunyddiau'n newid i atgyfnerthu hierarchaeth ffyrdd



Symleiddio geometreg croesfannau, rhwystrau'n amddiffyn cerddwyr rhag ceir



'Pocedi' ar gyfer planhigion a choed stryd




1 Palet deunyddiau'n newid i atgyfnerthu hierarchaeth ffyrdd

2 Newidiadau i ddeunyddiau'n helpu i arafu ceir

3 Croesfannau yn arddull Copenhagen yn caniatáu symudiad di-dor i gerddwyr

4 Llwyfan dyrchafedig yn codi lefel y ffordd at y droedffordd

5 Mannau gwyrdd yn ychwanegu at gymeriad yr ardal

6 Cyfle i blannu yn y lleoedd rhwng ffiniau preifat a'r ffordd

7 Cadw ffiniau a mynediad eiddo presennol








Planhigion ar yr ymylon, cyfle am goed stryd o fewn y lle




Pwyslais ar gerddwyr yn y gyffordd, pwyntiau croesi di-dor yn arddull Copenhagen




Gwahanol ddeunydd arwyneb yn atgyfnerthu blaenoriaeth cerddwyr mewn cyffyrdd





Argraff arlunydd o’r olygfa tua’r gogledd ar gyffordd Ffordd Dixton gyda Stryd y Mynach

# Prosiectau Pyrth a Mannau Cyrraedd Eraill


## Amcan:

Creu mynedfeydd croesawgar a thrawiadol i Drefynwy sy'n rhoi argraff gyntaf gref, arwain pobl i ganol y dref, ac adlewyrchu cymeriad y dref fel seren hanesyddol Dyffryn Gwy.

### Porth Afon Gwy

**Mynedfa glan y dŵr sy'n cysylltu canol y dref ag Afon Gwy:**

- Datblygu man glanio pwrpasol ar gyfer canŵyr ac ymwelwyr sy'n teithio ar y dŵr gydag angorfeydd, seddi ac arwyddion dehongli
- Creu cysylltiadau di-dor rhwng y dŵr, y bont arfaethedig i gerddwyr a beicwyr ac atyniadau canol y dref
- Gosod arwyddion canfod ffordd clir i arwain ymwelwyr o'r afon i ganol y dref
- Dylunio'r ardal i wasanaethu fel man cyrraedd ymarferol a llecyn deniadol ar lan yr afon sy'n dathlu cysylltiad Trefynwy â'r afon









# Prosiectau Pyrth a Mannau Cyrraedd Eraill

## Man cyrraedd Stryd Glyndŵr a Neuadd y Sir

**Cyrraedd yr ardal ogleddol:**

- Creu man cyrraedd croesawgar y tu ôl i Neuadd Sir sy'n addas ar gyfer marchnadoedd a digwyddiadau
- Integreiddio Beaufort Arms Court i'r profiad cyrraedd
- Gwella cysylltiadau â'r castell ac ardal yr amgueddfa
- Gosod arwyddion canfod ffyrdd clir i atyniadau treftadaeth allweddol
- Gwella'r amgylchedd i gerddwyr gyda goleuadau priodol a thrin arwynebau
- Creu cyfleoedd am fannau hyblyg ar gyfer digwyddiadau

## Strategaeth Gynhwysfawr i Ddangos y Ffordd

**Cysylltu pwyntiau cyrraedd â chyrchfannau:**

- Gosod arwyddbyst cyson ym mhob maes parcio sy'n dangos amseroedd cerdded ac atyniadau allweddol
- Creu dull dylunio unedig sy'n adlewyrchu cymeriad Trefynwy
- Cynnwys cyfleoedd integreiddio digidol sy'n cysylltu â mentrau trefi SMART
- Darparu mapiau a gwybodaeth gyfeirio clir
- Cynnwys gwybodaeth am dreftadaeth ac atyniadau lleol







# Prosiectau Rheoli Lleoedd a Thematig Arfaethedig

**Amcanion:**

Gwelliannau Gweladwy

Creu gwelliannau amlwg ar unwaith i olwg a safonau cynnal a chadw canol y dref, gan fynd i'r afael â phryderon allweddol a godwyd gan drigolion ac ymwelwyr



**Amcanion:**

Eiddo Gwag a Busnesau


Trawsnewid adeiladau gwag a rhai a danddefnyddir yn lleoedd llewyrchus sy'n cefnogi busnesau newydd, mentrau creadigol a gweithgareddau cymunedol, gan helpu i adeiladu economi fwy amrywiol a gwydn i ganol y dref



**Amcanion:**

Tref Barod am y Dyfodol ac sy'n cael ei Rheoli'n Dda

Arfogi Trefynwy fel y gall ffynnu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol gan ddefnyddio technolegau craff, cynaliadwy a systemau rheoli cydgysylltiedig sy'n gwella bywyd bob dydd wrth adeiladu gwydnwch ar gyfer y dyfodol



**Amcanion:**

Treftadaeth a Dehongli

Defnyddio dulliau traddodiadol a digidol i ddod â hanes cyfoethog Trefynwy yn fyw, gan annog pobl i grwydro mwy ar ganol y dref



**Amcanion:**

Gweithgareddau a Digwyddiadau

Trawsnewid strydoedd a llecynnau Trefynwy yn lleoedd bywiog sy'n cynnal amrywiaeth o weithgareddau a digwyddiadau drwy gydol y flwyddyn



# Gweithgareddau Rheoli Lleoedd

## Gwelliannau Gweledol

- Gweithredu rhaglen gynhwysfawr i gael gwared ar ddodrefn stryd diangen, arwyddion sydd wedi dyddio ac annibendod gweledol gan ganolbwyntio ar Stryd yr Eglwys a Stryd Mynwy.
- Cynnal archwiliad arwyddion a gwelliannau ledled y dref sy'n gysylltiedig â hyrwyddo treftadaeth y dref, llwybrau allweddol i geddwyr a chyfleusterau hanfodol. Archwilio ac ymgynghori ar slogan i dref Trefynwy fel rhan o arwyddion porth newydd a brandio a marchnata ehangach i gyfleu cymeriad y dref mewn ffordd gofiadwy.
- Sefydlu rhaglen gwella adeiladau a'i thargedu ar eiddo amlwg ar Stryd Mynwy a Stryd yr Eglwys, gan gynnwys grantiau ffryntiadau a chamau gorfodi ar adeiladau sydd wedi'u hesgeuluso ers amser maith.
- Cyflawni 'glanhau trylwyr' blynyddol ac adnewyddu cyfleusterau cyhoeddus gan gynnwys toiledau, planhigion, llwybrau cerdded, dodrefn stryd ac arwyddion presennol.
- Mynd ati mewn ffordd gydgysylltiedig i wella blaenau siopau trwy grantiau a chanllawiau dylunio er mwyn gwella apêl weledol ardaloedd siopa allweddol.
- Datblygu protocolau gorfodi lle bo problemau parhaus yn ymwneud â chynnal a chadw, gan weithio gyda pherchnogion eiddo i fynd i'r afael ag amodau adeiladau sy'n dirywio.
- Sefydlu amserlenni a safonau cynnal a chadw rheolaidd ar gyfer mannau cyhoeddus er mwyn sicrhau gwelliannau parhaus.









# Gweithgareddau Rheoli Lleoedd

## Eiddo Gwag a Chymorth i Fusnesau









- Targedu eiddo gwag amlwg ar Stryd yr Eglwys, Sgwâr Agincourt a Stryd Mynwy i'w gwella, yn enwedig lle gallant greu gwell cysylltiadau i gerddwyr i feysydd parcio. Mae'r rhai sydd â budd strategol yn cynnwys hen fanciau ac adeiladau gwag ac adfeiliedig hirdymor.
- Annog gweithfannau hyblyg a all gefnogi busnesau newydd, busnesau newydd a mentrau cymdeithasol.
- Archwilio cyfleoedd o fewn datblygiadau mawr fel neuadd y farchnad i greu mannau cymunedol dan do sy'n gwasanaethu pobl o wahanol genedlaethau.
- Hyrwyddo rhaglen y cyngor sir o ddefnyddio siopau gwag fel safleoedd dros dro i brofi syniadau newydd a magu hyder.
- Cysylltu â chymorth busnes, hyfforddiant a chyllid i helpu mentrau newydd i lwyddo.
- Gweithio gyda sefydliadau cymunedol i ddod â lleoedd gwag yn ôl i ddefnydd ar gyfer gwasanaethau sydd o fudd i bobl leol.

# Gweithgareddau Rheoli Lleoedd

## Tref Barod am y Dyfodol ac sy'n cael ei Rheoli'n Dda



- Gweithredu atebion digidol craff sy'n gwella profiad ymwelwyr trwy arwyddion digidol o ansawdd uchel mewn lleoliadau allweddol, gan helpu pobl i ganfod eu ffordd at atyniadau a chyfleusterau gan leihau annibendod gweledol o arwyddion traddodiadol.
- Archwilio sut y gall technoleg trefi SMART fel meinciau clyfar a byrddau gwybodaeth digidol wella'r parth cyhoeddus ar gyfer gwahanol genedlaethau, a chefnogi ymdrechion cynnal a chadw trwy synwyryddion sy'n monitro biniau gwastraff, goleuadau a seilwaith.




- Sefydlu seilwaith digidol cynhwysfawr gan gynnwys Wi-Fi cyhoeddus ledled y dref a systemau monitro ymwelwyr i gefnogi busnesau a chasglu gwybodaeth ar sut mae pobl yn defnyddio canol y dref.
- Datblygu ap ffôn symudol integredig sy'n hyrwyddo busnesau lleol, dangos llwybrau treftadaeth rhyngweithiol, a chynnig gwybodaeth amser real am ddigwyddiadau, lleoedd parcio a chysylltiadau trafnidiaeth.



- Ymestyn a defnyddio rhwydwaith presennol y Rhyngrwyd Pethau (IoT) gan ddefnyddio technoleg LoRaWAN i fonitro rheoli gwastraff, mannau parcio, ansawdd aer, a pherfformiad seilwaith, gan alluogi cynnal a chadw rhagweithiol a gwell effeithlonrwydd.

## Gweithgareddau Rheoli Lleoedd

### Treftadaeth a Dehongli

- Creu llwybr treftadaeth newydd sy’n adeiladu ar lwybrau presennol i gysylltu atyniadau allweddol.
- Gosod arwyddion clir i ganfod y ffordd a byrddau dehongli mewn safleoedd hanesyddol.
- Datblygu ap realiti estynedig (AR) sy’n datgelu golygfeydd a straeon hanesyddol mewn lleoliadau allweddol.
- Defnyddio Neuadd y Sir ar ôl gwneud gwelliannau iddi fel man cychwyn ar gyfer darganfod treftadaeth y dref.
- Cydgysylltu’r gwahanol lwybrau treftadaeth a dehongli i greu profiad cydlynol i ymwelwyr.





# Gweithgareddau Rheoli Lleoedd

## Gweithgareddau a Digwyddiadau

- Creu mannau dynodedig ar gyfer bysgio, adrodd straeon a pherfformiadau anffurfiol sy'n apelio at bob oedran, yn enwedig o amgylch Glan yr Afon, Stryd Mynwy a Sgwâr Agincourt.
- Datblygu mannau gweithgareddau aml-genhedlaeth sy'n dod â gwahanol grwpiau oedran at ei gilydd trwy farchnadoedd i'r arddegau, marchnadoedd stryd, cerddoriaeth fyw, digwyddiadau cyfeillgar i deuluoedd a mannau ymgynnull anffurfiol.
- Cydgrynhoi ac ehangu'r marchnadoedd presennol i farchnad draddodiadol fwy rheolaidd yn Sgwâr Agincourt, gan gynnwys elfennau sy'n canolbwyntio ar ieuenctid megis tryciau bwyd, stondinau crefftau sy'n cael eu rhedeg gan entrepreneuriaid ifanc, a pherfformiadau cerddoriaeth.
- Creu mannau cymunedol a diwylliannol dan do, gan gynnwys archwilio mannau addas i bobl ifanc sy'n rhoi cysgod, wi-fi a goleuadau a mannau cymunedol ar y cyd o fewn datblygiadau fel Neuadd y Farchnad.
- Datblygu'r rhaglen o ddigwyddiadau mwy sy'n dathlu treftadaeth, celfyddydau, diwylliant y dref a'i hafonydd, gan sicrhau bod y rhaglen yn cynnwys gweithgareddau sy'n apelio at bobl ifanc a theuluoedd.
- Gosod cyflenwadau pŵer a seilwaith arall sydd eu hangen i gefnogi digwyddiadau mewn mannau allweddol, gan gynnwys offer ar gyfer digwyddiadau cerddoriaeth a gweithgareddau wedi'u galluogi gan dechnoleg.
- Cefnogi grwpiau cymunedol i ddatblygu gweithgareddau rheolaidd, bob dydd yn hytrach na digwyddiadau arbennig yn unig, gan greu rhesymau parhaus i bobl ifanc dreulio amser yng nghanol y dref.







# Rhagweld Llwyddiant i Ganol ein Tref



# Diffinio Llwyddiant

Wrth alluogi a chyflawni newid mewn lle fel Trefynwy, mae'n hanfodol deall sut mae diffinio llwyddiant. Mae angen i chi fod yn glir am y canlyniadau rydych chi'n gweithio tuag atynt a'r broses y mae angen i chi ei dilyn er mwyn cyrraedd yno.

**Pam fod hyn yn bwysig**

- Cyfeiriad clir: Mae dangos llwyddiant yn rhoi cymhelliant ac yn helpu pawb i gydweithio tuag at ddiben cyffredin
- Meithrin ymddiriedaeth: Mae'n cryfhau'r berthynas rhwng partneriaid a'r gymuned
- Atebolrwydd: Mae'n dangos i sefydliadau cyllido eich bod yn cyflawni eich allbynnau a'ch canlyniadau, gan ddangos enillion ar eu buddsoddiad
- Olrhain cynnydd: Mae'n darparu fframwaith i fonitro pa mor dda mae prosiectau'n gweithio.

**Y gwahaniaeth rhwng allbynnau a chanlyniadau**

- **Allbynnau** yw canlyniadau uniongyrchol eich gweithgareddau megis nifer y meinciau newydd a osodwyd, metrau o lwybrau troed wedi'u gwella
- **Canlyniadau** yw'r newidiadau mwy hirdymor y mae'r gweithgareddau hyn yn eu creu, megis mwy o ymwelwyr, gwell llesiant cymunedol neu ganol tref mwy bywiog

Mae'r tudalennau canlynol yn cynnwys rhai enghreifftiau o allbynnau a chanlyniadau y gellir eu hystyried wrth gasglu ac asesu effaith prosiectau a gweithgareddau.

## Creu Canol Bywiog i'r Dref

### Yr hyn sydd arnom eisiau ei gyflawni

Bydd strydoedd a sgwariau Trefynwy yn lleoedd croesawgar, cynhwysol lle mae ar bobl eisiau treulio amser, ac sydd â busnesau ffyniannus a gweithgareddau rheolaidd.

#### Allbynnau

- Nifer yr adeiladau gwag sy'n cael eu defnyddio unwaith eto
- Nifer y busnesau a mentrau creadigol newydd a gefnogwyd
- Nifer y lleoedd hyblyg ar gyfer digwyddiadau a grewyd mewn strydoedd a sgwariau
- Nifer y marchnadoedd, perfformiadau a digwyddiadau cymunedol a gynhaliwyd
- Arwynebedd gwelliannau i'r strydlun (tacluso, goleuadau, arwynebau)
- Nifer y lleoedd addas i bobl ifanc a gweithgareddau rhwng cenedlaethau

#### Canlyniadau

- Lleihau cyfraddau eiddo gwag a gwella defnydd o adeiladau
- Mwy o amrywiaeth o fusnesau annibynnol a gwasanaethau
- Mwy o brysurdeb a mwy o amser yn cael ei dreulio mewn strydoedd allweddol
- Gwell economi gyda'r nos a chynigion diwylliannol
- Teimlad cryfach o fywiogrwydd a bywyd cymunedol
- Gwell darpariaeth i bobl ifanc a theuluoedd

# Diffinio Llwyddiant

## Dathlu'n Hanes a'n Hafonydd

### Yr hyn sydd arnom eisiau ei gyflawni

Bydd Trefynwy yn arddangos ei threftadaeth unigryw a hunaniaeth ei hafonydd, trwy dirnodau hanesyddol â chysylltiadau da a gwell mynediad i'r ddwy afon.

#### Allbynnau

- Nifer y pwyntiau dehongli treftadaeth a dyfeisiadau adrodd straeon digidol a osodwyd
- Hyd y llwybrau i gerddwyr sydd wedi'u gwella rhwng y castell, Neuadd y Sir a thirnodau allweddol
- Nifer yr adeiladau a'r safleoedd treftadaeth sy'n cael eu hailddefnyddio bellach
- Gwell mynediad a chysylltiadau i ardal glan yr afon
- Nifer y llwybrau treftadaeth a phrofiadau tywys a grëwyd
- Sgoriau boddhad ymwelwyr mewn atyniadau treftadaeth

#### Canlyniadau

- Gwell cysylltedd rhwng tirnodau hanesyddol Trefynwy
- Gwell amlygrwydd a hygyrchedd y castell a'r ardal dreftadaeth
- Ennyn diddordeb mwy o ymwelwyr yn hanes Trefynwy
- Hunaniaeth gryfach fel 'Tref ar Ddwy Afon'
- Mwy o dwristiaeth treftadaeth ac economi ddiwylliannol
- Mwy o falchder mewn hanes lleol a hunaniaeth lle

## Meithrin Ysbryd Cymunedol

### Yr hyn sydd arnom eisiau ei gyflawni

Bydd gan Drefynwy deimlad cryf o gymdeithas, gyda thrigolion yn cyfrannu'n weithgar at lunio dyfodol y dref a darparu lleoedd cynhwysol ar gyfer pob oed.

#### Allbynnau

- Nifer y digwyddiadau, gwyliau a phrosiectau creadigol a gyflawnwyd o dan arweiniad y gymuned
- Nifer y lleoedd eistedd hygyrch a mannau ymgynnull anffurfiol a grëwyd
- Nifer y grwpiau cymunedol sy'n ymwneud yn weithredol â rheoli canol y dref
- Nifer y rhaglenni rhwng cenedlaethau a gweithgareddau ieuenctid
- Oriau gwirfoddolwyr sydd wedi'u cyfrannu at fentrau canol tref
- Sgoriau boddhad cymunedol ac ymdeimlad o berthyn

#### Canlyniadau

- Perchnogaeth gymunedol a balchder dinesig cryfach
- Mwy o bob grŵp oedran yn cymryd yng ngweithgareddau canol y dref
- Gwell cydlyniant cymdeithasol a chysylltiadau rhwng cenedlaethau
- Mwy o wydnwch cymunedol a hunan-drefnu
- Gwell llesiant trwy ryngweithio cymdeithasol a gweithgareddau diwylliannol
- Mannau cyhoeddus mwy cynhwysol a chroesawgar i bawb o'r trigolion

# Diffinio Llwyddiant

## Creu Gwell Croeso

### Yr hyn sydd arnom eisiau ei gyflawni

Bydd Trefynwy yn lle haws a mwy dymunol i'w gyrraedd, gyda phyrth deniadol ac arwyddion clir sy'n adlewyrchu cymeriad y dref

#### Allbynnau

- Nifer y cynlluniau gwella porth a gwblhawyd (Stryd Cinderhill, Ffordd Dixton, gorsaf fysiau)
- Nifer y totemau canfod ffordd ac arwyddion cyfeiriadol a osodwyd mewn meysydd parcio a mannau cyrraedd
- Cyrraedd safonau glanhau a chynnal a chadw yn yr holl fannau cyhoeddus
- Nifer y gwelliannau hygyrchedd a weithredwyd
- Sgoriau boddhad ymwelwyr ar gyfer profiad cyrraedd
- Amseroedd cerdded a rhwyddineb canfod y ffordd o bwyntiau cyrraedd i gyrchfannau allweddol

#### Canlyniadau

- Gwell argraff gyntaf o Drefynwy a'r ymdeimlad o gyrraedd yno
- Haws i ymwelwyr ganfod eu ffordd o gwmpas canol y dref
- Gwell hygyrchedd i bobl o bob oedran a gallu
- Gwell cysylltedd rhwng pwyntiau cyrraedd ac atyniadau allweddol
- Gwella boddhad ymwelwyr a thebygolrwydd o ddychwelyd
- Hunaniaeth phrofiad cryfach o byrth y dref

## Tref Barod am y Dyfodol ac sy'n cael ei Rheoli'n Dda

### Yr hyn sydd arnom eisiau ei gyflawni

Bydd Trefynwy yn barod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol gyda dulliau clyfar a chynaliadwy o weithredu a rheolaeth gydgysylltiedig.

#### Allbynnau

- Nifer y systemau technoleg glyfar a phwyntiau gwybodaeth digidol a osodwyd
- Nifer y busnesau a gefnogwyd drwy offer a mentrau digidol
- Arwynebedd seilwaith gwyrdd a draenio cynaliadwy a gyflawnwyd
- Nifer y mentrau rheoli canol trefi a gydlynwyd
- Gwelliannau effeithlonrwydd ynni ac amgylcheddol a gyflawnwyd
- Nifer y grwpiau cymunedol sy'n ymwneud â gweithgareddau rheoli lle

#### Canlyniadau

- Gwell effeithlonrwydd gweithredol a rheolaeth gydlynol o ganol y dref
- Gwell perfformiad amgylcheddol a gwydnwch rhag newid hinsawdd
- Gwella cysylltedd digidol a chystadleurwydd busnesau
- Y gymuned yn chwarae mwy o ran yn stiwardiaeth canol y dref
- Gwell safonau rheoli a chynnal a chadw adnoddau
- Cynaliadwyedd hirdymor cryfach a mwy o allu i addasu ar gyfer y dyfodol

# Dull Cyflawni



# Ffyrdd o Weithio

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Threfynwy

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw'r darn allweddol o ddeddfwriaeth Cymru sy'n arwain y ffordd rydym yn cynllunio ar gyfer dyfodol Trefynwy. Mae'n ei gwneud yn ofynnol inni feddwl ynghylch datblygu cynaliadwy – sut y byddwn yn diwallu anghenion heddiw heb niweidio gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwy.

## Y Saith Nod Llesiant Cenedlaethol

Mae'r Ddeddf hon yn nodi saith nod llesiant cenedlaethol sy'n arwain ein cynllunio ar gyfer Trefynwy. Rhaid i'n cynllun creu lleoedd gyfrannu at gyflawni'r nodau hyn wrth ymdrin ag anghenion a chyfleoedd penodol y dref.




## Y Pum Ffordd o Weithio

Mae'r Ddeddf hefyd yn nodi pum ffordd o weithio yn unol â'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy:

- **Meddwl yn hirdymor** Cydbwyso'r hyn sydd ei angen ar Drefynwy nawr â'r hyn y bydd ei angen yn y dyfodol. Mae ein cynigion yn edrych y tu hwnt i atebion cyflym er mwyn creu newid cadarnhaol parhaol i ganol y dref a fydd o fudd i genedlaethau i ddod.
- **Integreiddio** Dod ag ystyriaethau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol at ei gilydd. I Drefynwy, mae hyn yn golygu cysylltu ein treftadaeth hanesyddol â nodau cynaliadwyedd modern, cysylltu canol y dref â'r cymdogaethau cyfagos, a sicrhau bod datblygiadau newydd yn ategu asedau presennol wrth ddiwallu anghenion pob grŵp oedran.
- **Cynnwys** Gwrando ar drigolion, busnesau, ymwelwyr a rhanddeiliaid. Mae'r cynllun creu lleoedd hwn wedi'i lunio wrth ymgynghori helaeth â chymuned Trefynwy, gan gynnwys ymdrechion ymroddedig i ddeall beth sydd ar bobl ifanc ei eisiau o ganol eu tref a beth fydd yn eu hannog i aros neu ddychwelyd i Drefynwy wrth iddynt adeiladu eu gyrfaoedd a'u teuluoedd.
- **Cydweithio** Gweithio mewn partneriaeth ar draws sectorau. Mae adfywio Trefynwy yn gofyn am gydweithrediad rhwng y cyngor sir, cyngor tref, busnesau lleol, grwpiau cymunedol a thrigolion, ysgolion, ac yn hollbwysig, pobl ifanc a fydd yn etifeddu'r dref a llunio ei dyfodol.
- **Atal** Buddsoddi mewn atebion sy'n atal problemau cyn iddynt ddechrau. Yn hytrach na dim ond ymateb i heriau canol trefi fel eiddo gwag neu gysylltedd gwael, rydym yn creu strategaethau rhagweithiol i gryfhau gwydnwch ac apêl Trefynwy.

# Ffyrdd o Weithio

### Datblygu a Chyflawni


Mae cyflawni'r cynllun creu lleoedd hwn yn dibynnu ar ddull partneriaeth lle mae sefydliadau strategol a lleol yn cyfuno'u hamcanion unigol yn set o gynigion sydd o fudd i'w gilydd ac, yn hollbwysig, o fudd i ganol tref Trefynwy a'i chymdogaethau cyfagos. Mae ar y cyfleoedd a ddisgrifir yn y cynllun hwn angen cymysgedd gwahanol o bartneriaid, adnoddau ac amser os ydynt am gael eu cyflawni.

Mae angen i'r Grŵp Cyflawni'r Cynllun Creu Lleoedd adeiladu ar sylfeini'r grŵp llywio'r cynllun, gydag adolygiad o'i aelodaeth ac ystyried y set sgiliau sydd ei hangen i ddatblygu pob prosiect. Bydd Cyngor Sir Fynwy yn cadw ei safle fel corff arweiniol rhaglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru, ac fel cyfrwng ar gyfer ariannu, monitro ac adrodd.

Mae'r ffactorau llwyddiant allweddol ar gyfer cyflawni prosiectau creu lleoedd yn cynnwys:

- Deall cryfderau unigol gan gynnwys gwybodaeth, arbenigedd ac asedau ffisegol a sut y gellir cydgyfeirio'r rhain.
- Cyfathrebu a chydlynu ar lefel strategol a gweithredol.
- Gweithio i god dylunio cyffredin sy'n sicrhau cysondeb yn yr amgylchedd adeiledig a mannau cyhoeddus a bodloni targedau addas o ran newid hinsawdd a chynaliadwyedd.
- Cysylltu trigolion lleol â llwybrau amrywiol i ddysgu, iechyd a llesiant, gweithgarwch corfforol a chyflogaeth.
- Cyflwyno hunaniaeth a stori unedig ar gyfer lle fel canol tref Trefynwy, tra'n parchu hunaniaeth pob sefydliad unigol.

Mae angen i'r grŵp cyflawni ystyried hefyd sut y bydd yn cyfathrebu â sefydliadau rhanddeiliaid a'r gymuned leol, gan gynnal y cyfathrebu hwn fel bod pobl yn gwybod pa bryd a ble mae cynnydd yn cael ei wneud.





Rhif Prosiect: 11372

Cyhoeddwyd: 11 Tachwedd 2025

Fersiwn: 1

chris jones | Roberts Limbrick | Owen Davies Consulting